# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# ASESIAD CYFUNOL

## 2017-18

## 5 FFORDD O WEITHIO




Cyhoeddwyd: 30 Medi 2018

*This document is also available in English*

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 4 |
| Cynnydd mewn perthynas â'r Amcanion Gwella a Llesiant | 11 |
| Cynnydd mewn perthynas â'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol | 26 |
| Monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg | 40 |
| Sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cymharu? | 43 |
| Crynodeb o Wybodaeth am Berfformiad | 56 |
| Beth mae pobl eraill wedi'i ddweud amdanom | 60 |
| Gwybodaeth arall | 63 |
| Y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau yn 2017-18 | 65 |
| Geirfa | 70 |


## Datganiad cenhadaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

**Gwneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi**


## FERSIYNAU ERAILL

Mae fersiynau eraill o’r ddogfen hon ar gael:

- ar bapur ac yn electronig;
- yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- taflen gryno o’r prif bwyntiau;
- fformatau hygyrch drwy ein gwefan.

Manylion Cyswllt:

Cyfeiriad postio: Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ



Ffôn: 01745 535 250


Gwefan: www.gwastan-gogcymru.org.uk

Gallwch chi ein dilyn ni hefyd ar:

Twitter @northwalesfire

www.facebook.com/northwalesfireservice

**GWAHODDIAD I GYFRANNU AT WELLA EIN GWASANAETHAU**



**Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ei weithrediadau a’r modd mae’n darparu gwasanaethau. Drwy fynd ati’n rheolaidd i gyhoeddi gwybodaeth sy’n ystyrlon, ein gobaith yw ennyn mwy a mwy o gysylltiad â’r bobl a’r cymunedau sy’n dibynnu ar ein gwasanaethau.**

**Felly, os oes gennych chi sylwadau am yr Asesiad hwn, neu am ffyrdd posibl o wella ein Hasesiadau Perfformiad Blynyddol, bydden ni’n falch o glywed gennych chi.**

Lluniwyd y ddogfen hon i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a nodir isod, ac mae'n darparu asesiad o'r modd y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATGAC neu 'yr Awdurdod') wedi cyflawni ei ddyletswyddau wrth ateb y gofynion sydd ynddynt:

- Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009
  Ers 2009, mae'r Awdurdod wedi dod dan Fesur Llywodraeth Leol 2009 sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo osod a chyhoeddi amcanion gwella. Fel "Awdurdod Gwella Cymreig" a ddynodwyd dan y ddeddfwriaeth hon, rhaid i gynlluniau gwella ATAGC ddangos ei fod wedi gwella'r hyn mae'n ei wneud yn un, o leiaf, o'r saith agwedd ar wella, sef:
  - effeithiolrwydd strategol;
  - ansawdd gwasanaethau;
  - argaeledd gwasanaethau;
  - tegwch;
  - cynaliadwyedd;
  - effeithlonrwydd; ac
  - arloesi.

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
  Nod y Ddeddf hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau o bobl Cymru yn y dyfodol. Fel un o'r cyrff cyhoeddus sy'n cael eu rhestru yn y Ddeddf, rhaid i ATAGC wneud gwaith "datblygu cynaliadwy" [1] er mwyn helpu i sicrhau'r gwelliant hwnnw ym mhoblogaeth Cymru yn y dyfodol.

- Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn uno darnau o ddeddfwriaeth cydraddoldeb a oedd yn arfer bod ar wahân, gan gysoni a chryfhau deddfwriaeth cydraddoldeb o dan un Ddeddf newydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd ym maes cydraddoldeb ar gyfer y sector cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

  - dileu gwahaniaethau anghyfreithlon, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan neu dan y Ddeddf;
  - hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt;
  - hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

[1] *Datblygu cynaliadwy* yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, i geisio cyflawni'r nodau llesiant. Ystyr yr *egwyddor datblygu cynaliadwy* yw gweithredu "mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau".

Hefyd, mae dyletswyddau cydraddoldeb penodol cysylltiedig ar gyfer Cymru (sef Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011) sy'n galluogi awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r rheoliadau penodol yn cynnwys:

- cyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb;
- cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- darpariaethau ymgysylltu a chyfranogi ar gyfer grwpiau nodweddion gwarchodedig;
- sicrhau bod deunydd cyhoeddedig ar gael yn hygyrch;
- asesu effaith polisïau ac arferion perthnasol;
- hyfforddi a chasglu gwybodaeth am gyflogaeth;
- hybu gwybodaeth a dealltwriaeth am y Ddeddf Cydraddoldeb ymysg gweithwyr;
- mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg rhwng cyflogau;
- adolygu'r cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb cysylltiedig;
- darpariaethau arferion caffael.

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
  Fe wnaeth Comisiynydd y Gymraeg roi Hysbysiadau Cydymffurfio i'r gwasanaethau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen yn rhestru pa Safonau (fel y'u rhestrir yn llawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016) y mae'n rhaid i sefydliad gydymffurfio â nhw, ynghyd ag unrhyw eithriadau a dyddiadau pryd byddant yn cael eu gweithredu.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r gwaith y mae'r Awdurdod yn ei wneud ar y cyd, ac o'i berfformiad mewn perthynas â dangosyddion perfformiad lleol a chenedlaethol penodol a mesurau llwyddiant. Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan: www.gwastan-gogcymru.org.uk

Mae Cynllun Gwella a Llesiant 2017/18 yn cynnwys mwy o wybodaeth am yr amcanion gwella a llesiant y mae'r Awdurdod wedi'u gosod iddo'i hun ar gyfer y llynedd, a'i ffordd mae wedi gosod amcanion. Mae copi ohono ar gael ar ein gwefan:
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337609/final-combined-improvement-and-well-being-plan-2017-18-cymraeg-with-amended-cover.pdf

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod 2016/2020 yn nodi sut mae'r Awdurdod yn bwriadu sicrhau cydymffurfiaeth dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ac mae'r cynllun ar gael yn: http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/4454/cynllun-cydraddoldeb-strategol-2016-2020.pdf

Mae Cynllun Gweithredu'r Gymraeg GTAGC yn dangos sut mae'r Awdurdod yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau newydd, ac mae modd ei weld ar ein gwefan gydag Hysbysiad Cydymffurfio'r Gwasanaeth yn: http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337604/cynllun-gweithredu-safonaur-gymraeg-gtagc.pdf

## Y GWASANAETHAU A DDARPARWN:

| ATAL TANAU | |
|---|---|
|  | Dan y ddeddf, rhaid i awdurdodau tân ac achub drefnu i hybu diogelwch tân yn eu hardal. Byddai hyn yn cynnwys rhoi gwybod i bobl am ffyrdd o atal tanau, a'u cynghori ynghylch y ffordd orau o ymateb os bydd tân. |

| GORFODI DIOGELWCH TÂN | |
|---|---|
|  | Mae dyletswydd ar awdurdodau tân ac achub i orfodi diogelwch tân ar safleoedd annomestig (gwestai, ysgolion, siopau a swyddfeydd ac ati). Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys defnyddio pwerau i roi hysbysiadau addasu, hysbysiadau gorfodi a hyd yn oed hysbysiadau gwahardd os byddant yn canfod bod trefniadau diogelwch tân anfoddhaol ar y safle. |

| YMATEB MEWN ARGYFWNG | |
|---|---|
|  | Rhaid i awdurdodau tân ac achub wneud trefniadau ar gyfer derbyn galwadau 999 ac ar gyfer anfon staff sydd â'r hyfforddiant a'r offer i ddiffodd tanau ac amddiffyn bywyd ac eiddo yn y tanau hynny. Rhaid iddynt hefyd wneud trefniadau ar gyfer achub pobl o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac ar gyfer amddiffyn pobl rhag niwed difrifol. Yn Ebrill 2017, fe wnaeth Llywodraeth Cymru greu dyletswydd statudol i ymateb hefyd i lifogydd neu ddigwyddiadau'n ymwneud ag achub o ddŵr sy'n bygwth bywyd. |

| CYNLLUNIO AC YMATEB I ARGYFYNGAU ERAILL | |
|---|---|
|  | Rhaid i awdurdodau tân ac achub wneud trefniadau ar gyfer dadhalogi pobl ar raddfa eang ar ôl digwyddiadau cemegol, biolegol neu ymbelydrol, ac ar gyfer achub pobl o drenau, awyrennau ac adeiladu sydd wedi cwympo. Rhaid iddynt hefyd fod yn barod i gynorthwyo gydag argyfyngau mawr yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig. |

Fel ymatebwyr 'Categori 1' dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae dyletswydd hefyd ar awdurdodau tân ac achub mewn perthynas â digwyddiadau mawr sy'n bygwth difrod difrifol i les pobl, bywyd gwyllt, yr amgylchedd a'r prif gadwyni cyflenwi.

**GORSAFOEDD TÂN:**

Mae’r Awdurdod yn gweithredu:

| | Gorsafoedd Tân Shifftiau 24 awr | Gorsafoedd Tân Criw Dydd |
|---|---|---|
|  | Mae tair gorsaf dân gyda chriw yno bob awr o’r dydd a’r nos. Mae’r rhain yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy (Queensferry) a’r Rhyl. | Mae pum gorsaf dân â chriw yno rhwng hanner dydd a 10:00pm, ac yn gweithredu fel gorsafoedd ar alw y tu allan i’r oriau hynny . Mae’r rhain yng Nghaernarfon, Bangor, Caergybi, Llandudno a Bae Colwyn. |

Mae pob un o’r wyth gorsaf dân amser cyflawn yn cynnwys un injan dân gyda staff ar alw, ynghyd ag un injan dân sydd â chriw’r system Amser Cyflawn, ac eithrio Wrecsam sydd â dwy (sef 17 i gyd).

**Gorsafoedd Ar Alw (Rhan Amser, RDS)**

Mae tri deg chwech o orsafoedd yn gweithredu fel gorsafoedd rhan amser (RDS) yn llwyr

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn**<br>1 orsaf criw dydd<br>6 gorsaf ar alw | **Conwy**<br>2 orsaf criw dydd<br>6 gorsaf ar alw | **Sir y Fflint**<br>1 orsaf shifftiau 24 awr<br>4 gorsaf ar alw |
| **Gogledd Gwynedd**<br>2 orsaf criw dydd<br>4 gorsaf ar alw | **Sir Ddinbych**<br>1 orsaf shifftiau 24 awr<br>6 gorsaf ar alw | **Wrecsam**<br>1 orsaf shifftiau 24 awr<br>2 gorsaf ar alw |

**De Gwynedd** 8 gorsaf RDS

Ymhob un o’r 36 o orsafoedd tân ar alw mae yna un injan dân sydd â chriw ar alw arni, ac eithrio Pwllheli, sydd â dwy (sef 37 i gyd). Am lawer o’r amser, nid oes staff ar orsaf dân ar alw. Mae pob diffoddwr rhan amser yn cario teclyn rhybuddio yn ei boced, ac mae hwnnw’n canu pan fo ei angen. Bydd swyddi eraill gan ddiffoddwyr ar alw, ond pan mae eu hangen byddan nhw’n dod yn rhan o dîm a gan ddibynnu ar y math o ofal sy’n cael ei roi, gall diffoddwr rhan amser ymateb o gartref a/neu’r gwaith, ddydd neu’r nos.

**STAFF:**


Ar 31 Mawrth 2018, roedd GTAGC yn cyflogi:

|  | Cyfwerth â llawn amser | Nifer y staff unigol |
|---|---|---|
| Amser Cyflawn Gweithredol | 257.67 | 262 |
| Ar alw gweithredol* | 369.75 | 443 |
| Gwaith cefnogol ac ataliol | 146.03 | 155 |
| Ystafell Reoli | 32.75 | 36 |
| Cyfansymiau | 806.20 | 896 |

*Oherwydd natur ‘ar alwad’ y swyddi, maen nhw’n cael eu cyfrifo fel ‘unedau 24 o ofal’ yn hytrach na chyfwerth â llawn amser.

**PROFFIL GOGLEDD CYMRU:**

## Dwysedd Poblogaeth (nifer y boblogaeth/ardal mewn cilometrau sgwâr 30 Mehefin 2017)




| | | |
|---|---|---|
| Ynys Môn | Isle of Anglesey | 98 |
| Gwynedd | Gwynedd | 49 |
| Conwy | Conwy | 104 |
| Sir Ddinbych | Denbighshire | 114 |
| Sir y Fflint | Flintshire | 355 |
| Wrecsam | Wrexham | 269 |

| POBLOGAETH | | |
|---|---|---|
|  | Mae poblogaeth breswyl Gogledd Cymru oddeutu 696,284 o bobl, a'r rheini wedi'u crynhoi yn bennaf yn ardaloedd mwy diwydiannol a threfol y gogledd-ddwyrain ac ar hyd yr arfordir. Ers dechrau'r mileniwm, mae poblogaeth Gogledd Cymru wedi cynyddu 5.3%, sy'n is na'r cynnydd cenedlaethol, sef 7.5%. | |
| | Poblogaeth (amcangyfrifon canol blwyddyn 2000) | Poblogaeth (amcangyfrifon canol blwyddyn 2017) |
| **Gogledd Cymru** | 661,356 | 696,284 |
| **Cymru gyfan** | 2,906,870 | 3,125,165 |
| **Cyfeiriad** | https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localAuthority-year | |

## DWYSEDD POBLOGAETH

Ar lefel siroedd, mae'r dwysedd poblogaeth yn amrywio o 49 o bobl am bob cilometr sgwâr yng Ngwynedd – sef un o'r siroedd mwyaf tenau eu poblogaeth yng Nghymru a Lloegr - a 355 o bobl am bob cilometr sgwâr yn Sir y Fflint.

| | Poblogaeth | Dwysedd Poblogaeth |
|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | 696,284 | 113 o bobl am bob KM$^2$ |
| **Cymru gyfan** | 3,125,165 | 151 o bobl am bob KM$^2$ |
| **Cyfeiriad** | https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Density/populationdensity-by-localAuthority-year | |

## OEDRAN A RHYWEDD

Yng Ngogledd Cymru, amcangyfrifir bod 8,786 yn fwy o ferched na dynion, er o ran y canran 49% a 51% yw hynny. Amcangyfrifir bod 7,464 o'r bobl sy'n byw yn yr ardal yn 90 oed neu'n hŷn, a 26% o'r rheini'n byw yng Nghonwy.

| | Gwryw | Benyw | 0-15 | 16-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | 343,749 | 352,535 | 123,689 | 413,726 | 158,869 |
| **Cymru gyfan** | 1,540,200 | 1,584,965 | 559,260 | 1,922,636 | 643,269 |
| **Cyfeiriad** | http://www.infobasecymru.net/IAS/themes/people,communitiesandequalities/people/population/tabular?viewId=1152&geoId=1&subsetId= | | | | |

## ETHNIGRWYDD

Yn ôl yr amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf, mae poblogaeth Gogledd Cymru yn wyn yn bennaf - 97.34% o gymharu â 95.24% yng Nghymru gyfan.

| | Poblogaeth | Yn dweud eu bod yn dod o gefndir gwyn | |
|---|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | 690,000 | 672,200 | 97.4% |
| **Cymru gyfan** | 3,082,000 | 2,936,000 | 95.3% |
| **Cyfeiriad** | https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-year-ethnicgroup | | |

## HUNANIAETH GENEDLAETHOL

Yn ôl Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2017, mae canran poblogaeth siroedd Gogledd Cymru sy'n eu hystyried eu hunain yn Gymry yn amrywio rhwng 36% a 65% o gymharu â 63%, sef cyfartaledd Cymru.

| | Poblogaeth | Yn eu hystyried eu hunain yn Gymry | |
|---|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | 690,000 | 347,000 | 50.3% |
| **Cymru gyfan** | 3,082,000 | 1,940,500 | 63.0% |
| **Cyfeiriad** | https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/National-Identity/nationalidentity-by-area-identity | | |

| **Y GYMRAEG** | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  | Roedd Cyfrifiad 2011 yn dangos bod canrannau'r siaradwyr Cymraeg mewn siroedd yng Ngogledd Cymru yn amrywio rhwng 13% a mwy na 65%, o gymharu ag 19% sef y cyfartaledd yng Nghymru. | | | |
| | Pobl yn arolwg Cyfrifiad 2011 | | Siaradwyr Cymraeg | |
| **Gogledd Cymru** | 663,808 | | 204,406 | 30.8% |
| **Cymru gyfan** | 3,082,000 | | 562,016 | 19.0% |
| **Cyfeiriad** | https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/National-Identity/nationalidentity-by-area-identity | | | |

| **ANABLEDD** | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  | Yn ôl arolwg poblogaeth 2012, amcangyfrifwyd bod gan rhwng 17% a 24% o boblogaeth Gogledd Cymru ryw fath o anabledd, o gymharu â mymryn dros 22% yng Nghymru gyfan. | | | |
| | Canlyniadau'r Arolwg | | Pobl sy'n anabl | |
| **Gogledd Cymru** | 395,100 | | 75,700 | 19.2% |
| **Cymru gyfan** | 1,818,900 | | 410,000 | 22.5% |
| **Cyfeiriad** | https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/peopleofworkingagewithdisabilities-by-area-disabilitytype | | | |

| **HUNANIAETH RYWIOL** | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  | Roedd ymatebion i'r Arolwg Integredig o Gartrefi a gynhaliwyd yn 2014 yn awgrymu bod rhwng 87% a 97% o boblogaeth Gogledd Cymru yn heterorywiol, o gymharu â 93%, sef y cyfartaledd yng Nghymru gyfan. | | | |
| | Canlyniadau'r Arolwg | | 16+ ac yn heterorywiol | |
| **Gogledd Cymru** | 400 | | 370 | 92.5% |
| **Cymru gyfan** | 1,200 | | 1,131 | 94.3% |
| **Cyfeiriad** | https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Sexual-Identity/sexualidentity-by-area-identitystatus | | | |

| **FFYRDD A THRAFFIG** | |
|---|---|
|  | Y prif gysylltiadau trafnidiaeth ar y ffyrdd yw'r A55, yr A5, yr A483, yr A487, yr A470 a'r A494. Mae tua 5,792 o filltiroedd o ffyrdd yng Ngogledd Cymru, ac mae 84% ohonynt yn is-ffyrdd, a'r gweddill yn gefnffyrdd neu'n briffyrdd 'A'.[2] Mae ystadegau'r Adran Drafnidiaeth yn amcangyfrif bod 4.34 miliwn o filltiroedd cerbydau wedi cael eu teithio yn y chwe mis yng ngogledd Cymru yn ystod 2017. O'r rheini, cafodd 3.38 miliwn o filltiroedd cerbydau eu teithio mewn ceir.[3] Yn 2016, adroddwyd bod 1,450 o anafusion ar y ffyrdd yng Ngogledd Cymru, a bu farw 33 ohonynt, cafodd 280 eu hanafu'n ddifrifol a chafodd 1,137 fân anafiadau.[4] Bydd ffigyrau 2017 yn cael eu diweddaru pan fyddant ar gael ym mis Medi 2018. |

[2] Tabl RDL0102a 2017. https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/road-length-statistics-rdl

[3] Tablau TRA8901 a TRA8902. https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/tra89-traffic-by-local-authority

[4] Tabl RAS30008. https://www.gov.uk/government/statistics/reported-road-casualties-great-britain-annual-report-2016

**Beth mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr Awdurdod yn ei wneud**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu bod yr Awdurdod yn gosod ac yn cyhoeddi amcanion llesiant. Mae'r amcanion yn newidiadau tymor hir y mae'r Awdurdod eisiau eu gweld yng Ngogledd Cymru i gyfrannu at wella llesiant lleol a symud Cymru yn nes at gyflawni ei nodau llesiant. Ar ôl nodi'r amcanion tymor hir, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i'w hybu ac i adrodd yn gyhoeddus ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ynghylch y cynnydd y mae wedi'i wneud. Mae Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru hefyd wedi'i categoreiddio'n 'Awdurdodau Gwella Cymreig' ac maent yn agored i ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 o ran dilyn proses flynyddol o osod a chyflawni amcanion gwella lleol.

Mae'r adran hon yn cyflwyno Amcanion cyfunol yr Awdurdod ar gyfer Gwella a Llesiant 2017/18, esboniad cryno o'r rhesymau pam cafodd pob un ei fabwysiadu, a'r camau a gymerwyd i'w cyflawni.

Erbyn 31 Hydref 2018, rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad o'i berfformiad ei hun ar gyfer 2017/18 a'r dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer yr un flwyddyn, a hynny.

**Y ddyletswydd llesiant**

Rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n dod dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wneud gwaith datblygu cynaliadwy, ac wrth wneud hynny, rhaid iddo osod a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n ceisio gwneud y cyfraniad mwyaf i gyflawni pob un o'r nodau llesiant cenedlaethol, a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio. Yn gryno, rhaid i'r Awdurdod wneud y canlynol:


- Gosod a chyhoeddi amcanion llesiant;
- Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny;
- Cyhoeddi datganiad am ei amcanion llesiant;
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol am y cynnydd;
- Cyhoeddi ymateb i unrhyw argymhelliad a wneir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

**Dyma'r amcanion llesiant y mae'r Awdurdod wedi'u gosod:**

A. Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os ydynt yn digwydd;
B. Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac yn fwy integredig fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny yn fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

## Amcan A: Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os ydynt yn digwydd.







### Pam dewiswyd yr amcan hwn

Gartref y mae pobl yn fwyaf tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu gan dân, ac mae hyn er eu bod yn gyfarwydd â chynllun yr adeilad a'u bod fel arfer yn agos at o leiaf un llwybr dianc. Heblaw am yr effaith emosiynol a'r golled bersonol sy'n gysylltiedig â thanau gartref, mae effaith economaidd hefyd, e.e. cost atgyweirio, premiwm yswiriant uwch a cholli amser gwaith; cost yr ymateb brys, gofal meddygol, ailgartrefu a gofal maeth; effaith ar werth eiddo a pha mor ddeniadol yw i fusnesau sy'n sefydlu yn yr ardal. Yn ôl Cymdeithas Yswirwyr Prydain, fe wnaeth cwmnïau yswiriant dalu miliwn a chwe deg chwech o filoedd o bunnau bob dydd yn 2015 i geisiadau gan gartrefi domestig o ganlyniad i danau yn y cartref[5]. Mae effaith llygredd tanau hefyd yn cyfrannu at amgylchedd llai iach, ac mae hynny wedyn yn troi pobl i ffwrdd oddi wrth weithgareddau awyr agored.

### Nifer y prif danau yng Ngogledd Cymru yn ôl lleoliad y tân




(p) Data dros dro.
Ffynhonnell: Stats Cymru

5 https://www.abi.org.uk/globalassets/sitecore/files/documents/publications/public/2015/statistics/key-facts-2015.pdf


Mae bron i hanner yr holl brif danau yng Ngogledd Cymru yn digwydd gartref, a dyma lle mae pobl yn fwyaf tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu gan dân. Mae ein dadansoddiadau o anafusion tanau blaenorol wedi canfod amrywiaeth o ffactorau sy'n gallu golygu bod pobl mewn mwy o risg o danau damweiniol yn y cartref. Mae'r ffactorau'n cynnwys:

- eu hoed (plant ifanc ac oedolion hŷn);
- anabledd neu gyflwr meddygol sy'n cyfyngu arnynt;
- bod ar eu pen eu hunain ar adeg y tân;
- dan ddylanwad alcohol a/neu gyffuriau;
- byw mewn llety ar rent;
- dim larwm mwg yn gweithio ar y safle;
- hanes blaenorol o fod yn ddiofal wrth gael gwared ar ddeunyddiau ar dân;
- amddifadedd cymdeithasol.

Po fwyaf o ffactorau cyfrannol sy'n gysylltiedig ag unigolyn, y mwyaf yw'r risg o ddioddef tân yn y cartref.

Gall hyd yn oed mân anafiadau corfforol fod yn drawmatig pan fydd rhywun yn cael tân gartref, ond mae anafiadau difrifol neu farwolaeth ffrind neu aelod o'r teulu yn gallu cael canlyniadau pellgyrhaeddol i iechyd corfforol a meddyliol.

**Nifer y marwolaethau oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru yn ôl lleoliad**




(p) Data dros dro.
Ffynhonnell: Stats Cymu

Mae 'Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017', a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn dweud y bydd canran y bobl dros 65 oed yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf yn cynyddu o ryw 20% i ryw 25% o'r holl boblogaeth. Hefyd, rhagwelir y bydd y boblogaeth sydd dros 75 oed yng Nghymru yn cynyddu o 9% o'r boblogaeth yn 2014 i ryw 13% yn 2030. Hefyd, os yw'r cyfraddau presennol yn parhau, mae'n debygol y bydd cynnydd amlwg yn y rhai sy'n dioddef o ddementia. Erbyn 2025, gallai 50,000 o bobl 65 neu hŷn fod yn byw â dementia yng Nghymru, a'u chwarter yn 90 oed neu'n hŷn.

Cydnabyddir bod cysylltiad rhwng bod yn agored i dân ac amddifadedd cymdeithasol, anabledd ac oedran. Mae gwaith ataliol targedol yn ceisio unioni'r fantol a gwrthweithio effeithiau'r nodweddion arbennig hynny.

Bydd unigolion a chymunedau sy'n gwybod sut i atal tanau ac aros yn ddiogel pan fyddant yn digwydd yn rhai mwy cadarn yn economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Os yw gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd, gallan nhw osgoi dyblygu gwaith costus ac aneffeithlonrwydd, a darparu gwasanaeth o ansawdd gwell pan fo ei angen. Gellir cadw arian cyhoeddus i bethau nad oes modd eu hatal.

Mae cymunedau sy'n rhydd o danau damweiniol mewn cartrefi yn rhai mwy llewyrchus, felly maen nhw'n fwy cadarn ac yn well am ddatblygu diwylliant adeiladol a chadarnhaol sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddiddordebau diwylliannol. Mae cymdogaethau sy'n rhydd o danau damweiniol mewn cartrefi yn cyfrannu at gymunedau deniadol, hyfyw, diogel a chyd-gysylltiol sydd â mwy o siawns o gynnal synnwyr o bwrpas cyffredin, gan rannu gwasanaethau a'u hadnoddau'n fwy teg tra'n cyfrannu at awyr glanach a chyflenwadau dŵr glanach.

**Beth wnaethon ni i gyflawni'r amcan hwn?**

Y cam y cynigiodd yr Awdurdod ei gymryd i gyflawni amcan A oedd darparu rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau ataliol i geisio cadw pobl a chymunedau yn ddiogel rhag tanau damweiniol mewn cartrefi.
Dyma'r camau ar y raglen 2017/18 i gynorthwyo i gyflawni hyn.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Cynnal 20,000 o Archwiliadau Integredig Diogelwch Tân, gan gynnal o leiaf 30% o'r rheini mewn cartrefi y mae asiantaeth arall yn eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth. |

Yn Awst 2017, fe wnaeth GTAGC droi'r 'archwiliad diogelwch yn y cartref' traddodiadol yn archwiliad 'diogel ac iach' i adlewyrchu natur holl-gynhwysfawr ei ymweliadau â chartrefi. Y gobaith yw y bydd hyn yn gymorth i bobl sy'n byw yn ein cymunedau i ddeall nad yw'r archwiliadau'n canolbwyntio ar ddiogelwch tân yn y cartref yn unig.

Ledled Gogledd Cymru, cafodd cyfanswm o 20,188 o archwiliadau eu cynnal, a 5,454 (27.02%) o'r rheini i bobl a oedd wedi cael eu hatgyfeirio gan asiantaeth arall ac y gellid eu hystyried yn fwy agored i berygl. Er bod 27% yn is na'r targed o 30%, cydnabyddir bod y cynnydd yn y cyngor a'r wybodaeth sy'n cael eu darparu fel rhan o Archwiliad Diogel ac Iach yn golygu bod pob ymweliad yn cymryd mwy o amser erbyn hyn, ac mae hynny wedi cael effaith ar nifer yr ymweliadau y gellir eu cynnal mewn diwrnod.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Parhau i weithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i ni a meithrin partneriaethau newydd lle bo hynny'n briodol. |

Yn ystod 2017/18, bu GTAGC yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau eraill, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru (HGC), Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), a gwahanol sefydliadau yn y trydydd sector.



Ar ôl creu Bwrdd Rhaglen Gydweithredol y Tri Gwasanaeth, un o'r prosiectau a gomisiynwyd oedd edrych sut y gellid ymateb i alwadau sy'n dod i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) o safbwynt aml-wasanaeth, er mwyn canfod ymateb symlach ac amgenach i bobl sy'n cael codwm heb anaf.

Dechreuodd y **Tîm Cymorth Cymunedol** ar 1af Awst 2016 a pharhaodd at 2017/18. Roedd y tîm yn mynd i gynorthwyo pobl oedd wedi cwympo ond heb gael anaf yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Roeddynt yn eu cynorthwyo i godi, sicrhau tawelwch meddwl a'u cefnogi.

Lle bo'n briodol, atgyfeiriwyd nhw ymlaen, i atal codwm rhag digwydd eto na digwyddiadau diogelwch eraill rhag digwydd yn eu cartref; roedd hyn i gyd yn rhan o archwiliad 'Diogel ac Iach'. Mae'r cyfraniad y mae GTAGC a'n partneriaid wedi ei wneud i ostwng nifer y galwadau 'aciwtedd isel' y mae YGAC wedi mynd atynt nid yn unig yn rhyddhau eu hadnoddau gwerthfawr i fynd at alwadau sy'n bygwth bywyd ond hefyd yn darparu canlyniad a phrofiad llawer gwell i'r claf.

Mae'n amlwg fod manteision i gydweithio â gwasanaethau brys a gwasanaethau cyhoeddus eraill, a hynny o ran arbedion ariannol ac o ran darparu gwasanaethau gwell i'n cymunedau. Cefnogwyd y fenter Tîm Cymorth Cymunedol gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â'r tri gwasanaeth brys, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Galw Gofal / Care Connect, a Gwasanaeth Monitro Galwadau Rhanbarthol Gogledd Cymru.

**Cyd-Ymateb** – Fe wnaeth y cynllun treialu Cyd-Ymateb, lle bu staff y gwasanaeth tân ac achub yn ymateb gyda'r staff ambiwlans i ddigwyddiadau sy'n bygwth bywydau ledled Cymru, ddechrau yn Rhagfyr 2015, a pharhau tan Fedi 2017. Roedd timau cyd-ymateb yn cael eu hanfon allan gan yr ystafell reoli, dan gyfarwyddyd YGAC (WAST). Nid oedd GTAGC yn anfon peiriannau tân fel rhan o'r Cynllun Treialu Cyd-Ymateb, ond roedd criwiau o ddau neu ddwy yn cael eu hanfon mewn ceir ac yn mynd at y digwyddiadau ar gyflymder arferol. Roedd y ceir yn cynnwys offer arbenigol i alluogi staff a oedd wedi cael hyfforddiant arbennig i ymateb i gyfres o gyflyrau clinigol penodol, gan gynnwys trawiad ar y galon, anafusion y dywedwyd eu bod yn anymwybodol neu'n tagu, a gwaedu catastroffig.

Roedd y cynllun treialu yn dilyn lansio cynlluniau tebyg gan 43 o wasanaethau tân ac achub ledled y DU. Mae cyd-ymateb yn dal yn destun trafod ar lefel genedlaethol fel rhan o'r negodiadau ynghylch cyflogau.

Mae gwaith ar y cyd rhwng y gwasanaethau brys wedi galluogi ymateb gweithredol gwell, mwy o wasanaethau gweithredol, a chydnerthedd gwell – gan ychwanegu gwerth gwirioneddol am arian wrth weithio'n fwy effeithiol ac effeithlon.

| **Cam Arfaethedig** | Datblygu Strategaeth Diogelwch Tân tymor canolig. |
|---|---|

Mae adran Diogelwch Tân GTAGC wrthi'n datblygu ei strategaeth tymor canolig gan aros canlyniad yr ymchwiliad cyhoeddus annibynnol ar newidiadau disgwyliedig ar lefel genedlaethol yn dilyn trychineb tŵr Grenfell. Mae strategaeth archwilio GTAGC yn parhau i ganolbwyntio ar le cysgu â risg uchel ac mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio'n agos ag asiantaethau eraill megis Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC) a Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r ffocws ar ddiogelwch cymunedol yn y strategaeth wedi newid fawr ddim, ac mae'r rhai sydd â'r risg mwyaf yn ein cymunedau yn cael eu targedu ac yn cael cynnig ymyriadau. Mae'r targed o 20,000 o archwiliadau diogel ac iach yn parhau er yr ansicrwydd am barhad cyllid Llywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Cadw'r cytundebau rhannu gwybodaeth presennol yn gyfoes, a cheisio sefydlu trefniadau newydd pan fo hynny'n briodol. |

Mae Bwrdd Rheoli Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru wrthi'n adolygu ei Brotocolau Rhannu Gwybodaeth a'r templedi a'r canllawiau ar gyfer y Cytundeb Datgelu Data i'w defnyddio gan sefydliadau yng Nghymru sy'n rhannu data personol gydag asiantaethau sy'n bartneriaid iddynt.

Mae grŵp adolygu, sy'n cynnwys rhanddeiliaid o amrywiaeth o sefydliadau a gyda chymorth Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, wedi bod yn creu cyfres newydd o dempledi a chanllawiau newydd sydd i'w rhyddhau yng Ngorffennaf/Awst 2018 gyda'r nod o sicrhau bod dogfennau'n parhau'n berthnasol, i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol (Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yr Undeb Ewropeaidd er enghraifft), ac i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid. Bydd y templedi newydd yn cael eu defnyddio gan GTAGC er mwyn adolygu'r holl drefniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Ceisio gwella ansawdd ac effeithlonrwydd yr Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref. |

Oherwydd y cynnydd yn y gwaith ar y cyd yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a'r ffaith fod mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i helpu i amddiffyn diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru, penderfynwyd ymestyn yr ymweliadau â chartrefi i gynnwys cyngor am faterion fel diogelwch nwy, archwiliadau diogelwch trydanol ochr yn ochr ag asesu'r risg o godwm posibl yn y cartref. Yn lle'r 'archwiliad diogelwch yn y cartref' traddodiadol, daeth archwiliad 'diogel ac iach' newydd i adlewyrchu natur holl-gynhwysfawr yr ymweliadau.

Mae GTAGC wedi cofleidio'r ymgyrch 'gwneud i bob cyswllt gyfrif' (MECC), sef ffordd o newid ymddygiad sy'n defnyddio'r miliynau o gysylltiadau y mae sefydliadau ac unigolion yn eu cael gyda phobl eraill o ddydd i ddydd i'w cefnogi i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu hiechyd a llesiant corfforol a meddyliol. Mae'r ymgyrch yn golygu ei bod yn bosibl darparu gwybodaeth gyson a chryno am ffyrdd iach o fyw ac yn galluogi unigolion i gael sgwrs am eu hiechyd. Mae staff GTAGC wedi cael hyfforddiant i'w galluogi i fod yn fwy parod i gefnogi pobl gydag amrywiaeth o bryderon, a hynny fel rhan o agenda iechyd a diogelwch yn ehangach.

**Astudiaeth Achos – Cartrefi Conwy a GTAGC**

Yn ddiweddar, mae gwaith ar y cyd â Chartrefi Conwy, sef cymdeithas dai flaenllaw yn yr ardal, wedi helpu i hwyluso'r gwaith o gyflwyno'r archwiliadau diogel ac iach newydd. Fe wnaeth gweithwyr o adrannau diogelwch cymunedol Conwy a Sir Ddinbych gymryd rhan yn y gwaith gyda Chartrefi Conwy yn un o'u cynlluniau tai sy'n cynnwys tua 500 eiddo.

Cyn yr ymgyrch, cafodd pob eiddo yn yr ardal dan sylw daflenni gan staff y Gwasanaeth a Chartrefi Conwy yn rhoi gwybod am ddyddiad ac amserlen yr ymgyrch. Dangoswyd posteri yn y siopau a'r canolfannau cymunedol yn yr ardal yn hysbysu'r digwyddiad.

Ar ddiwrnod y digwyddiad, codwyd nifer o stondinau llesiant yng nghanol ardal yr ymgyrch, i roi'r holl wybodaeth am y cynllun. Roedd hyn yn golygu bod y trigolion yn gallu cael rhagor o wybodaeth, ac roedd gweithwyr GTAGC a staff Cartrefi Conwy yn cael cyfle i sgwrsio â'r trigolion a chynnig rhagor o gymorth. Hefyd, fe wnaeth Cartrefi Conwy gynnig a chyfrannu

cystadlaethau i wneud yr ymgyrch yn fwy apelgar, megis paentio wynebau am ddim a gemau i'r plant, ynghyd â siawns i ennill taleb siopa gwerth £50 i unrhyw un oedd yn cymryd rhan yn y diwrnod.

Drwy gynnal yr ymgyrch o fewn lleoliad â llawer o eiddo, nid oedd amser teithio yn rhwystro'r gwaith ac nid oedd rhaid i'r gweithwyr drefnu ymweliadau archwiliadau diogel ac iach ymlaen llaw gan fod y trigolion eisoes yn gwybod y byddai GTAGC yn yr ardal. Roedd hyn yn arbed llawer o waith gweinyddu. Drwy ddefnyddio cyfuniad o weithwyr GTAGC a staff o Gartrefi Conwy, roedd y rhan fwyaf o'r gwaith cyfeirio at wasanaethau ac asiantaethau cymorth yn cael ei wneud yn ystod yr Archwiliad Diogel ac Iach felly roedd yr ymweliadau'n fwy effeithlon a deinamig. Yn ystod yr ymgyrch, cafodd 112 o Archwiliadau Diogel ac Iach eu cynnal gan gyfuniad o weithwyr GTAGC a Chartrefi Conwy.

Bu'r ymgyrch yn llwyddiannus i bawb a gymerodd ran mewn llawer o wahanol ffyrdd. Canfuwyd bod angen rhagor o gymorth ar sawl eiddo gan asiantaethau sy'n bartneriaid i ni i'w cynorthwyo i gadw'n ddiogel ac iach. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth i rai preswylwyr gyda lefel symudedd isel a thuedd i orgasglu. Roedd yr ymyriad cynnar yn golygu yn ogystal â lleihau'r risg uniongyrchol, cafodd rhai preswylwyr gefnogaeth barhaus gan gydlynydd byw'n annibynnol drwy Gartrefi Conwy, yn ogystal â rhagor o arweiniad am wresogi a gwasanaethau ariannol, ymyriadau carbon monocsid a'r buddion o wasanaethau monitro teleofal.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Drwy ddadansoddi patrymau yn y gorffennol, canfod a cheisio lleihau'r achosion a ddisgwylir o rai categorïau penodol o dân. |

Gan mai tanau coginio yw'r prif beth sy'n achosi tanau damweiniol, ac mae hyn yn fater sy'n cael ei gydnabod drwy'r wlad, mae GTAGC wedi cynnal rhaglen waith i gysylltu â phobl sydd wedi cael tân yn y gegin yn ystod 2017/18 i gael gwell dealltwriaeth o'r ymddygiad y tu ôl i hyn.



Gwahoddwyd unigolion i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Roedd y rhai a dderbyniodd y gwahoddiad yn cael ymweliad gan aelod hyfforddedig o'r adran diogelwch cymunedol a oedd yn defnyddio cyfuniad o dechnegau holi i gael gwell dealltwriaeth o'r amgylchiadau a arweiniodd at y tân coginio yn ogystal â gweithrediadau'r bobl dan sylw ar yr adeg ac wedi'r tân. Roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn dangos nad oedd 76% o'r bobl a gyfwelwyd yn y gegin ar adeg y tân, a bod diffyg talu sylw wrth goginio yn ffactor arwyddocaol o ran yr hyn a achosodd y tân yn ogystal â maint y difrod. Fe wnaeth yr astudiaeth ganfod hefyd faterion yn ymwneud â phresenoldeb larymau mwg yn ogystal ag ystyried pa mor effeithiol fu negeseuon y Gwasanaeth o ran faint oedd wedi cael ei gofio a'i ddilyn. Mae canlyniadau'r astudiaeth wedi dylanwadu ar gyfeiriad y Grŵp Diogelwch yn y Cartref Cymru gyfan yn 2018/19 oherwydd byddan nhw'n targedu negeseuon am danau yn y gegin, o ran:

- pwysigrwydd cael larwm mwg sy'n gweithio;
- y risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â thalu sylw wrth goginio;
- pwysigrwydd profi larymau;
- pwysigrwydd mynd allan os oes tân.

**Astudiaeth Achos – Tân cegin mewn cartref yn sir Wrecsam**

Rhoddwyd gwybod i GTAGC drwy wasanaethau larwm Careline am ddigwyddiad mewn cyfeiriad yn ardal Wrecsam. Roedd y preswyliwr, sef gŵr oedrannus, wedi rhoi bara i'w dostio, a heb sylweddoli roedd wedi gosod bwrdd bara ar ben y tostiwr. Aeth y gŵr allan o'r gegin i wneud croesair a gan nad oedd yn talu sylw nid aeth yn ôl i'r gegin hyd nes y clywodd y larwm mwg yn canu yn ei ystafell fyw i roi gwybod iddo bod tân. Ar ôl tynnu'r bwrdd bara oddi ar y tostiwr a sylweddoli bod y tostiwr ar dân, ceisiodd ddiffodd y fflamau drwy roi'r bwrdd bara yn ôl ar ben y tostiwr.



Dywedodd y gwasanaeth Careline wrth y gŵr i fynd allan o'r eiddo ar unwaith ond penderfynodd geisio delio â'r tân ei hun gan nad oedd yn meddwl ei fod yn rhy fawr. Wrth sylweddoli nad oedd y tân yn diffodd, tynnodd y plwg allan a chario'r tostiwr allan. Fe wnaeth y tân ddiffodd ei hun yn y diwedd, ond roedd y gegin yn llawn mwg.

O archwilio'r lle, ni welodd y diffoddwyr tân unrhyw ddifrod heblaw am i'r tostiwr, ond gan fod y gŵr wedi dioddef rhywfaint o anadlu mwg, awgrymwyd archwiliad rhagofalus a chysylltodd clinigydd o'r Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ag ef.

Nid dyma'r tro cyntaf i'r gŵr gael tân. Ar adeg arall, roedd y popty wedi mynd ar dân ac wedi arwain at dân llawer mwy ac ni cheisiodd fynd i'r afael â hwnnw.

Yn amlwg, roedd y gŵr wedi cynhyrfu ar ôl cael tân arall yn ei gartref. Ar y ddau achlysur, roedd peidio â thalu sylw wedi bod yn ffactor, felly trafodwyd nifer o fesurau â'r preswyliwr. Un o'r camau gweithredu ataliol y cytunodd i'w fabwysiadu oedd defnyddio'r nodwedd 'cyfri i lawr' ar ei ffôn symudol i'w atgoffa pryd roedd yn defnyddio ei bopty/gril/tostiwr. Cytunodd hefyd i aros yn y gegin pan oedd yn coginio.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Drwy ddadansoddi patrymau yn y gorffennol, cadarnhau dealltwriaeth y Gwasanaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at ba mor agored yw unigolyn i danau mewn cartrefi. |

Roedd adroddiad Grŵp Tasglu'r Prif Swyddog Tân yn 2007, a'r adolygiad ohono yn 2009, yn tynnu sylw at ffactorau cyfrannol sy'n dylanwadu ar y risg i unigolion o ran tân yn eu cartrefi.

Cafodd gwaith ei wneud yn y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i ganfod a oedd y ffactorau wedi newid. Roedd yr adolygiad hwn yn cadarnhau bod y ffactorau a welwyd o'r blaen yn dal mor berthnasol heddiw ag yr oeddent ddegawd yn ôl.

Mae'r ffactorau hyn yn parhau i gael eu defnyddio i flaenoriaethu unigolion i gael archwiliadau diogel ac iach, yn ogystal ag i ddylanwadu ar strategaeth y Gwasanaeth ar gyfer cynghorion diogelwch yn y cartref.


| **Cam Arfaethedig** | Parhau i dargedu negeseuon a chyngor ar yr adeg iawn ynglŷn â sut gall pobl osgoi cael eu hanafu mewn tanau yn y cartref. |
|---|---|

Mae staff allweddol o bob rhan o GTAGC yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd o'r 'Grŵp Llywio Ymgyrchoedd' i gytuno ar negeseuon ac ymgyrchoedd diogelwch, a'u cysoni gyda strategaethau ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol.


Mae gwybodaeth o ddigwyddiadau nodedig a thueddiadau lleol yn cael eu hystyried. Mae'r dull cyfun hwn yn sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael eu targedu gyda'r nod o newid ymddygiad i leihau risg. Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd yn sicrhau bod y negeseuon cywir yn cael eu rhoi ar yr adeg gywir o'r flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl. Er enghraifft, cafodd yr ymgyrch 'Op BANG', sy'n tynnu sylw at ymddygiad gwrthgymdeithasol a pheryglon camddefnyddio tân gwyllt, ei thargedu cyn, yn ystod, ac yn syth ar ôl Nos Galan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt, ill dwy.

Mae GTAGC yn parhau i rannu gwerthusiadau prosiectau gyda'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru er mwyn datblygu dulliau cyffredin pan fo hynny'n briodol, megis yr ymgyrch 'pobl hŷn' a'r ymgyrchoedd 'diogelwch wrth goginio'.

Drwy rannu canlyniadau prosiectau, roedd modd asesu a yw negeseuon diogelwch yn cael eu hamseru a'u targedu'n briodol, a gallu rhannu'r hyn a ddysgwyd.



**Amcan B: Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'i hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn parhau fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.**




## Pam dewiswyd yr amcan hwn

Mae'r amcan hwn yn ceisio sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu gwasgaru yn y ffordd orau i ddarparu gwasanaethau tân ac achub i achub bywydau. Yn anochel, mae heriau'n gysylltiedig â system o gyllidebu tymor byr, ond mae cynlluniau ariannol yn ceisio rhagweld ac ymdrin â phroblemau cyn iddynt ddigwydd, gan sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu.

Oherwydd yr ansicrwydd ariannol[6] a'r cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau ar draws y sector cyhoeddus, mae'n anochel y bydd yr Awdurdod yn wynebu heriau i'w allu i gynnal ei wasanaethau yn y degawdau i ddod. Felly, mae'r pwysau ar wasanaethau tân ac achub yn debygol o ddod o wahanol gyfeiriadau, gan gynnwys gallu recriwtio a chadw digon o ddiffoddwyr tân gweithredol sy'n ateb y safonau ffitrwydd angenrheidiol, a sicrhau digon o gyllid i dalu am ddarparu gwasanaethau tân ac achub ar adeg o alw cynyddol am amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus.

Er ein bod yn croesawu'r ffaith fod pobl yn byw'n hirach, gall y boblogaeth hŷn a ragwelir arwain at lai o bobl o oedran gweithio i gefnogi'r rhai sydd o oedran pensiwn. Mae ffigyrau ar gyfer y Deyrnas Unedig a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos[7] y bydd nifer y bobl o oedran pensiwn yn codi o amcangyfrif o 308 am bob 1,000 o bobl o oedran gweithio yn 2016 i 365 am bob 1,000 o bobl o oedran gweithio yn 2037.

Bydd ad-drefnu costau'r Awdurdod ei hun, a chanfod ffordd gytbwys o ariannu'r gwasanaeth dros y blynyddoedd nesaf, yn gymorth i gynnal gwasanaethau tân ac achub i'r dyfodol, gan wneud yr ardal yn fwy cadarn os bydd newidiadau demograffig a newidiadau eraill. Mae darparu gwasanaethau tân ac achub o ansawdd uchel yn cyfrannu at amgylchedd gwell a

---

[6] Gweler (enghreifftiau) : "*Cydnerthedd ariannol awdurdodau lleol yng Nghymru 2015-16*" Archwilydd Cyffredinol Cymru. https://www.wao.gov.uk/system/files/publications/445A2016-Financial-resilience-cym.pdf
"*Future pressures on Welsh public services*", Mark Jeffs, Wales Public Services 2025. http://www.walespublicservices2025.org.uk/files/2016/03/Mark-Jeffs-WPS2025-Summary-Report1.pdf
"*Welsh budgetary trade–offs to 2019–20*", D. Phillips and P. Simpson, The Institute for Fiscal Studies, Sept. 2016. https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/docs/IFS%20report%20R120.pdf
[7] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/articles/overviewoftheukpopulation/mar2017.

glanach ac yn amddiffyn adnoddau naturiol.

Mae cynllunio gwasanaethau ar sail risgiau yn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu dosbarthu orau a'u bod yn berthnasol i'r risgiau yn ein cymunedau, tra bo osgoi effeithiau tanau ac argyfyngau eraill yn cyfrannu at gymunedau mwy deniadol, hyfyw a diogel.

Bydd cymunedau sy'n gallu cael gwasanaethau ataliol ac ymateb brys effeithiol yn gallu canolbwyntio'n well ar gynnal y Gymraeg, gan greu diwylliant cadarnhaol ac amddiffyn eu treftadaeth.

**Beth wnaethon ni i gyflawni'r amcan hwn?**

Dyma'r camau yr oedd yr Awdurdod yn cynnig eu cymryd i gyflawni amcan B:


1. Sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod drwy fabwysiadu strategaeth ariannol 3 blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynyddu'r cyfraniadau ariannol a lleihau gwasanaethau;
2. Ail-falansio adnoddau'r Awdurdod i gyfateb i'r risg drwy weithredu model adnoddau sy'n sicrhau bod 20 o leiaf o griwiau tân wedi'u lleoli'n strategol ar gael yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol isel, a 38 o leiaf ar adegau o risg cymharol uchel;
3. Ceisio cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau integredig i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

Cafodd y camau a nodir isod eu rhaglennu ar gyfer 2017/2018 i gynorthwyo i gyflawni hyn.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, sef £33,161,277 wedi'i thanategu gan £414,000 o'r cronfeydd wrth gefn (blwyddyn 1 o'r cynllun ariannol 3 blynedd). |

Mae'r Awdurdod yn cael ei ariannu'n bennaf gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru, yn gymesur â'i boblogaeth. Rhwng 2011/12 a 201516, llwyddodd yr Awdurdod i wneud arbedion o £3.5m, a thrwy amsugno codiadau megis dyfarniadau cyflog, costau ariannu cyfalaf a chynnydd chwyddiannol cyffredinol, nid oedd raid cynyddu'r cyfraniad gan yr awdurdodau lleol yn ystod y cyfnod.

Mae'r graff isod yn dangos sut y mae cyfraniadau i'r Awdurdod tuag at gost gwasanaethau tân ac achub wedi bod yn is na'r gwariant gwirioneddol ers 2015/16. Bu hyn yn bosibl oherwydd bod yr Awdurdod wedi gallu dibynnu ar ei gronfeydd ariannol wrth gefn i ategu'r cyfraniadau a gafodd.




| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant net | £31,033,062 | £32,382,843 | £33,254,360 | |
| Cyfraniadau | £31,885,843 | £31,885,843 | £33,161,277 | £33,492,877 |

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol, fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu strategaeth ariannol 3 blynedd (2017/18 i 2019/20) ar 1 Rhagfyr 2016. Roedd y strategaeth yn cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynyddu'r cyfraniadau ariannol a lleihau gwasanaethau. Penderfynwyd mai 4% fyddai'r cynnydd yn 2017/18 yn y cyfraniadau gan y cynghorau sir a chynnydd pellach o 1% yn 2018/19, gan dalu am unrhyw ddiffyg yn y cyllid yn y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn o'r cronfeydd wrth gefn. Roedd y strategaeth arfaethedig yn cynnwys gwneud gostyngiadau yn y drydedd flwyddyn er mwyn cael yr arbedion angenrheidiol. Yn ystod y broses o osod y gyllideb, amcangyfrifwyd y byddai angen £414,223 o gronfeydd wrth gefn i osod cyllideb fantoledig ar gyfer 2017/18.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Awdurdod wedi cyflwyno dull mwy teg o ddosrannu costau sy'n gysylltiedig â'i raglen gyfalaf. Mae hynny wedi arwain at arbedion sydd wedi effeithio ar swm y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen i fantoli'r gyllideb yn 2017/18. Mae'r Datganiad terfynol ar Incwm a Gwariant 2017/18 yn cadarnhau bod £93,083 o gronfeydd wrth gefn wedi'u defnyddio, sy'n cymharu'n ffafriol â'r gofyniad gwreiddiol yn y gyllideb sef defnyddio £414,223 o gronfeydd wrth gefn, er bod pwysau costau'n parhau mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys gwariant ar gyflogau, safleoedd a chyflenwadau.

O ganlyniad i'r uchod, yn ogystal â'r ansicrwydd sy'n parhau am y trafodaethau cyflog sy'n mynd yn eu blaenau ar gyfer diffoddwyr tân, penderfynodd yr Awdurdod beidio â bwrw ymlaen â'r strategaeth 3 blynedd arfaethedig ac yn hytrach i gynnig strategaeth ariannol tymor canolog i ymorol am y blynyddoedd 2018/2021.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Ymgynghori â'r cyhoedd am y camau arfaethedig tuag at gyflawni'r amcanion llesiant yn ystod 2018/19 a chytuno ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno ar sail y costau hysbys a'r costau a ragwelir. |

Rhaid i'r Awdurdod adolygu ei amcanion llesiant fel rhan o'i drefniadau i adrodd yn eu cylch. Ym mis Mawrth 2017, fe wnaeth yr Awdurdod ymgynghori â'r cyhoedd am y camau y gallai eu cymryd tuag at gyflawni ei nodau llesiant tymor hir. Roedd effeithiau proses etholiadau Mai 2017, a sefydlu'r Awdurdod newydd, yn golygu y byddai'r gwaith o osod y gyllideb ar gyfer 2018/19 yn seiliedig o raid ar y costau hysbys a'r costau a ragwelid ar gyfer y flwyddyn honno, ond byddai'r ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng Mai a Gorffennaf 2017 yn sail i'r gwaith o ddatblygu cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer y dyfodol.

Cafodd dogfen ymgynghori'r Awdurdod, o'r enw "*Datblygu'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer y Dyfodol*", ei lansio ar ei wefan ddiwedd mis Mai 2017. Roedd y ddogfen yn rhoi trosolwg cryno o broses gynllunio'r Awdurdod ac yn gwahodd sylwadau ac awgrymiadau i'r Awdurdod eu hystyried wrth benderfynu ar y camau y dylai eu cymryd i gyflawni'r ddau amcan tymor hir a osodwyd yn Ebrill 2017. Gofynnwyd tri chwestiwn 'agored' bwriadol yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, a gwahoddwyd pobl i gyflwyno eu hymatebion cyn diwedd Gorffennaf 2017. Mae crynodeb o'r ymateb ar gael drwy'r ddolen isod:
http://nwales-fireservice.org.uk/media/337912/7-ymateb-ir-ymgynghoriad-cyhoeddus.pdf

Wrth fynd ati i gytuno ar gyllideb fantoledig ar gyfer 2018/19, roedd yr Awdurdod hefyd ymwybodol o'r heriau ariannol y bydd yn eu hwynebu yn 2019/2020, gyda'r ansicrwydd yn parhau yn y trafodaethau am gyflogau'r diffoddwyr tân yn ogystal ag ail-werthuso cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân yn 2018.

Oherwydd pwysau costau yn y dyfodol, bu'r Awdurdod yn ystyried 'strategaeth gymysg' eto ar gyfer 2018/2019 gan gynnwys cynnydd yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau lleol, wedi'u tanategu gan Gronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn. Roedd yr amrywiaeth o opsiynau a ystyriwyd yn cynnwys cyfraniadau arfaethedig yn seiliedig ar gynnydd o 1%, 1.5%, 2.0% a 2.5% gan bob un o'r Awdurdodau.

Ar ôl ystyried yr opsiynau a oedd ar gael, cytunodd yr Awdurdod y dylai cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol gynyddu 1% wedi'i danategu gan £646,701 o'r cronfeydd wrth gefn, ynghyd ag arbediad o £366,000 drwy newid y polisi darpariaeth isafswm refeniw er mwyn cael cyllideb fantoledig gwerth £33,492,87. Roedd y dull hwn yn cydnabod y pwysau ariannol a'r risgiau ar y sefydliadau hynny yn ogystal ag ar yr Awdurdod ei hun.

| Cam Arfaethedig | Parhau i weithio tuag at gael 20 o leiaf o griwiau tân wedi'u lleoli'n strategol yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol isel, a 38 o leiaf ar adegau o risg cymharol uchel. |
|---|---|



Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau tân ac achub fforddiadwy yng Ngogledd Cymru. Roedd ymateb y cyhoedd i ymgynghoriadau'r Awdurdod yn 2012 a 2015 yn dangos ei bod yn bwysig gwarantu bod criwiau tân ar gael bob awr o'r dydd a'r nos. Ond mae cael hynny a chynnal hynny mewn ardal sydd â diffoddwyr tân y system ar alw RDS (rhan amser) yn bennaf yn dod yn fwyfwy anodd. Er bod pobl yn tueddu i wybod lle mae eu gorsaf dân agosaf, ni fyddent o reidrwydd yn gwybod lle mae'r criw tân agosaf sydd *ar gael* ar yr adeg pryd maent yn galw.

Drwy symud o ffocws oddi wrth lle mae'r gorsafoedd tân (sef yr adeiladau) i'r gwaith o gynllunio a rheoli criwiau tân (sef y staff y gweithredol), mae GTAGC wedi cael dull hyblyg o ymdrin ag argaeledd, a hynny fwy ar sail risg. Mae system gorchymyn a rheoli newydd, sydd wedi'i hintegreiddio gyda'r dulliau cyfathrebu presennol, wedi parhau i sicrhau bod criwiau'n cael eu hanfon allan yn gyflym a chywir, yn ogystal â chynorthwyo i ganfod unrhyw brinder gofal. Hefyd, mae cyflwyno system argaeledd ar gyfer y system ar alw RDS wedi rhoi cyfle pellach i ganfod tueddiadau ac i gynorthwyo i recriwtio'n dargedol.

Mae GTAGC wedi adolygu'r ffordd y mae'n cynllunio i ddarparu gofal tân i gyfateb i adegau o risg is ac uwch. Mae gwaith rhagweld a monitro dyddiol wedi cael ei gynyddu i gynllunio gofal tân i sicrhau bod 20 o leiaf o griwiau tân wedi'u lleoli'n strategol ar gael yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol isel, a 38 o leiaf ar adegau o risg cymharol uchel. Mae staff yr Ystafell Reoli hefyd yn monitro argaeledd criwiau. Mae'r staff yn ymateb i unrhyw brinder oherwydd newidiadau byr-rybudd i argaeledd criwiau drwy ailddyrannu adnoddau rannau eraill o GTAGC.

Yn ystod Ionawr 2018, cyflwynwyd cynllun treialu ar rai gorsafoedd y System Ar Alw RDS i annog ffordd fwy hyblyg o weithio i weld a gellid gwella lefelau argaeledd. Dewiswyd gorsafoedd gyda nifer debyg o staff a phroffil er mwyn gweld a fyddai rhoi mwy o gyfrifoldeb am reoli argaeledd lleol ar lefel yr orsaf yn gallu helpu i wella argaeledd cyffredinol yr orsaf. Yn ôl yr arwyddion tua phum mis ar ôl i'r cynllun treialu ddechrau, mae lefel yr argaeledd wedi gwella 10% ar orsafoedd. Felly, cafodd y cynllun ei ymestyn i 12 mis. Bydd gwerthusiad ac adolygiad llawn yn cael eu cynnal gyda'r bwriad o'i gyflwyno'n ehangach os bydd yn llwyddiannus.

| Cam Arfaethedig | Parhau i archwilio mentrau newydd i brofi a allai GTAGC helpu i leihau'r pwysau a'r gofynion ar wasanaethau cyhoeddus eraill yn yr ardal. |
|---|---|



Mae 10 y cant o'r holl alwadau 999 i YGAC yn ymwneud â phobl oedrannus sydd wedi cael codwm. Gellid bod wedi atal llawer o'r codymau drwy ddarparu cyngor syml neu addasu offer yn y cartref.

Cafodd cynllun treialu **Rhaglen Atal Codymau Sir Ddinbych**, a grëwyd rhwng GTAGC a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ei gyflwyno ledled Gogledd Cymru, ac mae'r holl staff sy'n cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach yn cymryd rhan yn y Rhaglen Atal Codymau. Mae'r Rhaglen Atal Codymau yn cynnwys cyfres o bum cwestiwn sy'n sail i becyn asesu risg codymau. Mae cwestiynau'r pecyn yn seiliedig ar ymchwil academaidd o bob rhan o'r Deyrnas

Unedig a fu'n dadansoddi'r amgylchiadau a arweiniodd at sefyllfaoedd lle oedd pobl yn cael codwm gartref. Wrth gynnal Archwiliad Diogel ac Iach mewn eiddo lle mae'r preswyliwr yn 65 oed neu'n hŷn, neu bod ganddo gyflwr meddygol a allai arwain at godwm, mae'r gweithwyr yn defnyddio'r pecyn ac yn atgyfeirio'r bobl (gyda'u caniatâd) at y Tîm Atal Codymau priodol. Mae'r tîm yn cysylltu â'r preswyliwr ac yn asesu'r anghenion ac yn penderfynu ar ffyrdd o atal codymau rhag digwydd, e.e. adolygu meddyginiaeth, ffisiotherapi, dosbarthiadau ymarfer ac addasiadau i'r cartref.

Sefydlwyd **Tîm Cymorth Cymunedol** i gydnabod yr effaith y mae pobl sy'n dioddef codwm yn ei chael ar YGAC a'r GIG. YGAC yw'r pwynt cyswllt cyntaf, lle mae clinigydd yn asesu'r unigolyn dros y ffôn. Os nad oes anafiadau neu gyflyrau clinigol gan yr unigolyn, mae'r Tîm Cymorth Cymunedol yn cael ei anfon allan at yr eiddo i helpu'r person sydd wedi cael codwm gan ddefnyddio offer arbenigol. Os byddant yn gweld ar ôl cyrraedd bod y person wedi'i anafu, gellir gofyn am ambiwlans ond yn y rhan fwyaf o achosion, ni fu angen. Drwy gael y Tîm i ymateb, llwyddwyd i leihau llawer ar yr effaith ar YGAC a'r GIG yn 2017/18.

**Ar Goll o Gartref** - Yn ôl ystadegau Heddlu Gogledd Cymru, adroddir bod 3,000 o bobl ar goll o gartref bob blwyddyn. Dechreuodd y cynllun Ar Goll o Gartref ym mis Mawrth 2016 a pharhaodd at 2017/18. Cafodd ei ehangu i gynnwys pob diffoddwr tân ar Orsafoedd Tân Amser Cyflawn yn ogystal ag aelodau'r Tîm Cymorth Cymunedol. Y diffiniad o berson ar goll yw unrhyw un nad yw'n hysbys lle mae, ac sydd ar goll hyd nes y caiff ei ganfod ac ystyried ei les. Mae HGC yn asesu risg pob person sydd ar goll, ac mae GTAGC yn rhoi cymorth i HGC mewn achosion risg uchel, fel rhai sy'n cynnwys plentyn neu berson oedrannus. Mae HGC yn penderfynu ar yr ardal chwilio, ac mae GTAGC yn parhau i fod ar gael ar gyfer digwyddiadau eraill tra maent yn chwilio.

Mae'r Tîm Cymorth Cymunedol a'r prosiect Ar Goll o Gartref wedi cael eu rhoi ar restr fer Gwobrau Partneriaethau Datrys Problemau Heddlu Gogledd Cymru. Cafodd y gwobrau eu lansio i geisio cydnabod a darparu gwobrau ariannol i'w hail-fuddsoddi mewn gwaith datrys problemau cronig ledled y rhanbarth.

Dechreuodd **Dulliau Mynediad** ym mis Mawrth 2016 a pharhau at 2017/18. Mae'r holl staff ar orsafoedd amser cyflawn wedi cael hyfforddiant ar gael mynediad heb achosi difrod. Cafodd yr hyfforddiant ei ddarparu gan gydweithwyr o HGC a staff o'r tîm Diogelwch Cymunedol. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau mynediad cynt pan fo angen, yn ogystal ag arbed amser ac arian i HGC a allai gael eu galw i ddiogelu adeiladau yn dilyn tân. Mae cydweithio yn gymorth i sicrhau diogelwch preswylwyr ac mae'n helpu i arbed arian cyhoeddus; dau beth cadarnhaol yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Chwilio am gyfleoedd i staff aml-sgilgar weithio y tu hwnt i ffiniau sefydliadau i gynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau, yn enwedig rhai a fydd yn gwella iechyd, diogelwch a llesiant fel rhan o ddull 'diogel ac iach' sy'n canolbwyntio ar y person. |

Mae GTAGC wedi parhau i gyfrannu Gweithiwr Cymorth Diogelwch yn y Cartref i Gartrefi Conwy. Mae Cartrefi Conwy yn landlord cymdeithasol cofrestredig sydd â mwy na 7,000 eiddo. Nod y gweithiwr yw cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach ymhob eiddo. Pan gredir bod angen, gall y gweithiwr gyfeirio'r preswyliwr at wasanaethau cymorth eraill sydd ar gael gan Gartrefi Conwy megis cynhwysiant ariannol a byw'n annibynnol.

| | |
|---|---|
| Cafodd gwaith ar y cyd rhwng y tri gwasanaeth brys ei sefydlu yn GTAGC i weld sut y gallai'r tri Gwasanaeth Golau Glas ddatblygu amrywiaeth ehangach o wasanaethau i wella iechyd, diogelwch a llesiant cymunedau Gogledd Cymru. Roedd y tîm yn cynnwys aelod o GTAGC, YGAC a HGC, ac roedd wedi'i leoli yn yr adran Diogelwch Tân Cymunedol yn GTAGC. Yn ogystal â gwaith sydd eisoes yn bodoli ar y cyd, megis y Tîm Cymorth Cymunedol, Ar Goll o Gartref a Dulliau Mynediad, mae'r tîm hefyd wedi bod yn edrych ar feysydd eraill fel unigrwydd, atal troseddau ac atal sgamiau. | |
| **Cam Arfaethedig** | Parhau i fonitro a gwerthuso effaith a pha mor effeithiol yw rhaglenni peilot sy'n cael eu cynnal mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. |
|  | Mae GTAGC yn parhau i fonitro a gwerthuso'r cynlluniau Ar Goll o Gartref a Dulliau Mynediad.<br><br>Er gwaethaf llwyddiant y Tîm Cymorth Cymunedol yn 2017/18, nid oedd GTAGC yn gallu sicrhau'r cyllid angenrheidiol i barhau hyn yn 2018/19. |

**Beth mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr Awdurdod yn ei wneud**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn mynnu bod yr Awdurdod yn ysgrifennu cynllun cydraddoldeb bob 4 blynedd. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016/20 yn nodi chwe amcan cydraddoldeb y mae'r Awdurdod yn eu hybu i sicrhau bod Cymru'n wlad fwy teg i fyw ynddi. Nod y Ddeddf Cydraddoldeb yw sicrhau bod gan bawb hawl i'r canlynol:

- cael eu trin yn deg
- cael yr un siawns â phobl eraill
- bod yn rhydd o gamwahaniaethu.

Mae penawdau'r amcanion hyn yn seiliedig ar y penawdau meysydd yn nogfen y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "Pa mor Deg yw Cymru". Mae'r penawdau'n gyson hefyd â Chynllun Cydraddoldeb Strategol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru; mae hyn yn golygu bod modd cynnwys cyd-amcanion yng Nghynlluniau Cydraddoldeb Strategol sefydliadau unigol y sector cyhoeddus.

Ar ôl nodi'r amcanion hyn, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i'w hybu ac i adrodd yn gyhoeddus, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, am y cynnydd a wnaeth. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru nifer y nodweddion na chaniateir eu defnyddio fel rheswm dros drin rhai pobl yn waeth nag eraill. Dyma'r 'nodweddion gwarchodedig':

- Oedran;
- Anabledd;
- Ailbennu Rhywedd;
- Priodas a Phartneriaeth Sifil;
- Beichiogrwydd a Mamolaeth;
- Hil;
- Crefydd neu Gred/Dim Cred;
- Rhyw;
- Cyfeiriadedd Rhywiol.

Defnyddiwyd nifer o ffynonellau i ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb strategol:

- Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb
- Amcanion y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwell
- Cynlluniau busnes gan benaethiaid adrannau
- Strategaethau a chynlluniau sy'n bodoli eisoes
- Canlyniad gweithgareddau ymgysylltu

Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu newid yr amcanion unrhyw bryd, felly ymgysylltir drwy'r amser i sicrhau bod yr amcanion yn parhau'n gyfoes. Mae'r Awdurdod yn mynd ati drwy'r amser i archwilio'r dulliau mwyaf effeithiol o ymgysylltu drwy gysylltiadau cyfredol â grwpiau a mudiadau cymunedol, a thrwy ymdrechu i sefydlu perthynas â grwpiau a chymunedau newydd, anghenion a disgwyliadau pawb dan sylw. Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad yn 2017/18 erbyn 31ain Mawrth 2019.

**Amcan Cydraddoldeb 1 – Bywyd ac Iechyd:** Gostwng nifer y Tanau mewn Cartrefi a'r anafusion sy'n gysylltiedig â'r rheini, a hynny drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr wedi'i hanelu'n benodol at bobl y gellir dangos eu bod â mwy o risg oherwydd eu nodweddion a/neu eu hamgylchiadau penodol.



**Beth wnaethon ni i gyflawni'r amcan hwn?**

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Targedu pobl yn y gymuned sydd eisoes yn hysbys am fod â mwy o risg o dân, o ganlyniad i nodweddion gwarchodedig oedran ac anabledd. |

Oherwydd y cynnydd bach yn nifer y tanau mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru rhwng 2015/16 a 2016/17, fe wnaeth GTAGC gadw ei strategaeth i dargedu pobl sy'n hysbys am fod â mwy o risg o dân o ganlyniad i nodweddion gwarchodedig oedran ac anabledd.

Yn 2017/18, fe wnaeth GTAGC gynnal rhaglen waith i gysylltu â phobl a oedd wedi cael tân yn y gegin. Gofynnwyd i'r bobl dan sylw am yr amgylchiadau a arweiniodd at y tân coginio yn ogystal â'r hyn roedden nhw wedi'i wneud ar adeg y tân ac wedi hynny.

Roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn tynnu sylw at y canlynol fel meysydd pryder neu ddiddordeb:

- talu sylw wrth goginio;
- darparu larwm mwg sy'n gweithio; ac
- ydi negeseuon diogelwch GTAGC yn cael eu cofio a'u dilyn.


Fe wnaeth canlyniadau'r astudiaeth ddylanwadu ar waith Grŵp Diogelwch yn y Cartref Cymru gyfan yn 2018/19. Byddan nhw'n targedu negeseuon am danau yn y gegin:

- Pwysigrwydd cael larwm mwg sy'n gweithio;
- Y risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â thalu sylw wrth goginio;
- Pwysigrwydd profi larymau;
- Pwysigrwydd mynd allan os oes tân.

Yn y flwyddyn 2017/18 yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn, fe wnaeth yr adran Diogelwch Tân gynnal 20,188 o Archwiliadau Diogel ac Iach. Cafodd 5,454 o'r archwiliadau hynny eu cynnal i bobl yn y categori risg 'Uchel' oherwydd y ffactorau cyfrannol.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Ymgorffori cydraddoldeb yng nghynllun cyflawni blynyddol y grŵp llywio Ymgyrchoedd Diogelwch Tân, gyda dyddiadau a digwyddiadau allweddol i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd i ennyn sylw pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. |

Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd wedi ymgorffori dyddiadau a digwyddiadau allweddol yn eu cynllun cyflawni blynyddol i wneud gweithgareddau penodol i gefnogi unigolion neu grwpiau o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig a darparu adnoddau priodol iddynt. Mae'r 'llyw' ymgyrchoedd isod yn dangos pryd mae ymgyrchoedd yn cael eu trefnu, ochr yn ochr â gwybodaeth am bryd mae ymgyrchoedd cenedlaethol yn cael eu cynllunio.




| **Amcan Cydraddoldeb 2 - Cyflogaeth:** Drwy ein harferion cyflogaeth, mae rhaglenni a chynlluniau yn cynyddu gobeithion cyflogaeth pobl a allai fel arall ei chael hi'n anodd cael mynediad cyfartal at fyd gwaith. |  |
|---|---|

**Beth wnaethon ni i gyflawni'r amcan hwn?**

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Sicrhau bod cyfarpar yn y dyfodol yn fwy ymarferol yn ergonomaidd, gan leihau'r pwysau heb beryglu'r gofynion technegol, a bod y cyfarpar amddiffyn personol yn addas i'r pwrpas heb gamwahaniaethu a'i fod yn gyson ag anghenion GTAGC gan ystyried y nodweddion gwarchodedig. |

Mae GTAGC wedi parhau i feddwl pa effaith y gallai'r gwaith o gaffael cyfarpar gweithredol a chyfarpar amddiffyn personol ei chael ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Yn 2017/18, fe wnaeth GTAGC ddechrau ar ymarferiad caffael i gael setiau offer anadlu newydd, ynghyd â pheiriannau anadlu personol. Mae'r ymarferiad wedi sicrhau bod yr egwyddorion yn cael eu dilyn. Mae angen cynnal prawf ffitio wyneb ar y peiriannau anadlu er mwyn darparu offer pwrpasol ar gyfer wynebau o wahanol siapiau.

Bydd GTAGC yn parhau i sicrhau bod cyfarpar yn cael ei brynu yn dyfodol yn unol ag ergonomeg gwell a llai o bwysau heb beryglu ar y defnydd ohono.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Drwy arferion, rhaglenni a chynlluniau cyflogaeth yn GTAGC, mae GTAGC yn bwriadu cynyddu gobeithion cyflogaeth pobl a allai fel arall ei chael hi'n anodd cael mynediad cyfartal at waith. |

Mae'r adrannau Hyfforddi ac Adnoddau Dynol wedi defnyddio nifer o fentrau gweithredu cadarnhaol i gynyddu nifer y ceisiadau gan weithlu mwy amrywiol, gan dargedu grwpiau sydd o bosibl yn cael eu tangynrychioli, sef merched, pobl lesbiaid, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, *queer*, du a phobl o leiafrifoedd ethnig.

Mae diwrnodau gweithredu cadarnhaol wedi annog recriwtiaid posibl i ddod i ddysgu mwy am GTAGC a rôl diffoddwyr tân ar alw. Mae diwrnodau gweithredu cadarnhaol wedi cynnig siawns i ymgeiswyr roi cynnig ar rai o'r profion corfforol, cwrdd â modelau rôl, a deall mwy beth yw gofynion swydd diffoddwr tân. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad eleni, un yn y Rhyl ac un

yn Nolgellau ac mae pedwar digwyddiad wedi'u trefnu yn ystod y deuddeng mis nesaf.

Mae gwybodaeth am brentisiaethau gyda GTAGC wedi cael eu cynnwys fel rhan o waith gweithredu cadarnhaol i helpu i gynyddu gobeithion cyflogaeth ac i annog pobl i gael mynediad cyfartal.

Mae GTAGC wedi hyrwyddo polisïau i gynorthwyo ac annog cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ymysg gweithwyr GTAGC, a dechreuwyd ar fentrau newydd o ganlyniad i'r gwaith hwn.

| **Cam Arfaethedig** | Hyrwyddo polisïau i gynorthwyo ac annog cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ymysg gweithwyr GTAGC**.** |
|---|---|

Gwnaed cynnydd gwirioneddol o ran cynhyrchu a darparu canllawiau i weithwyr a rheolwyr llinell i'w cynorthwyo i ddelio â materion Iechyd Meddwl yn y gwaith. Mae sawl aelod o'r staff wedi mynd ar gwrs 'Speaking Up, Speaking Out', sef Rhaglen Golau Glas i'r gwasanaethau brys. Mae'r fenter yn rhoi cymorth iechyd meddwl i staff y gwasanaethau brys a gwirfoddolwyr o'r heddlu, tân, ambiwlans a chwilio ac achub. Cafodd y gweithdai eu cyflwyno gan 'Mind', yr elusen iechyd meddwl. Hyd yma, mae gweithwyr o bob rhan o GTAGC wedi eu cynnig eu hunain i fod yn Hyrwyddwyr Golau Glas.

Pan fydd yr hyfforddiant wedi'i gwblhau, bydd gan GTAGC dîm o Hyrwyddwyr Golau Glas yn y sefydliad, a'r rheini cael yr hyfforddiant llawn, i gymryd camau i godi ymwybyddiaeth am broblemau iechyd meddwl a herio stigma iechyd meddwl yn y gweithle.

Mae GTAGC yn cynnal tri grŵp o wirfoddolwyr mewnol i gynnig cyngor ac arweiniad i'w cydweithwyr ar adegau o straen:

**Tîm Cefnogi Cydweithwyr** (ar gael 24 awr y dydd)
Mae aelodau o'r tîm wedi cwblhau hyfforddiant ar fod yn effro i hunanladdiad, hunan-niweidio, ymwybyddiaeth o faterion ariannol a dyledion, cymorth cyntaf, dibyniaeth ar alcohol/cyffuriau, a phrofedigaeth.

**Cynllun Ôl-drafod Digwyddiadau Critigol** – mae aelodau ar gael i gefnogi staff sydd wedi bod mewn digwyddiadau trawmatig, drwy gynnig cymorth a gwrando.

**Gwirfoddolwyr Swyddogion Cyswllt Teuluol** – Mae marwolaeth aelod o staff yn gallu bod yn drawmatig i gydweithwyr ac i deulu a ffrindiau'r unigolyn, a rhaid cael y lefel briodol o ddoethineb a chrebwyll. Mewn sefyllfa anodd o'r fath, rhaid lleihau trallod perthnasau a chydweithwyr drwy ddelio'n sensitif â'r holl drefniadau angenrheidiol. Mae Swyddogion Cyswllt Teuluol yn ceisio lleihau effaith emosiynol y brofedigaeth ar deulu'r gweithiwr a bod yn un pwynt cyswllt rhwng y teulu a GTAGC. Yn ffodus, nid yw marwolaeth gweithiwr yn rhywbeth sy'n digwydd yn aml, ond mae'n bwysig cael trefniadau er mwyn lleihau trallod perthnasau a chydweithwyr.

Mae'r grwpiau hyn o wirfoddolwyr yn cael hyfforddiant yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gallu delio â'r materion y bydd staff yn dod ar eu traws. Mae'r grwpiau ar gael i wrando ac i gyfeirio at sefydliadau eraill sy'n gallu cynnig arbenigedd a chymorth a chefnogaeth fwy arbenigol.

Mae **'Rhaglen Cymorth i Weithwyr'** yn darparu gwasanaeth cwnsela bob awr o'r dydd a'r nos gan asiantaeth allanol, a gall y staff ddewis gyda phwy y maent yn dymuno siarad.

Hefyd, mae GTAGC wedi dechrau defnyddio elusen i gefnogi unigolion a allai fod yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma (PTSD). Mae **PTSD999** yn elusen newydd ac annibynnol sy'n cael ei ariannu gan roddion preifat. Mae'r rhan fwyaf o'r ymddiriedolwyr, gweinyddwyr, ac yn bwysicach y meddygon a'r staff cwnsela, wedi gweithio yn y gwasanaethau brys a/neu'r lluoedd arfog ac wedi cael anhwylder straen wedi trawma neu mae ganddynt gysylltiadau agos â rhywun sydd wedi cael hynny.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Yn dilyn adroddiad gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar Wasanaeth Tân Cynhwysol ar gyfer yr 21ain ganrif, bydd GTAGC yn sefydlu 'Grŵp Cynwysoldeb Tân ac Achub'. Bydd y grŵp yn cael ei gadeirio gan aelod o'r Awdurdod Tân, a bydd yn cwrdd bob chwarter ac yn rhoi camau ar waith yn ôl blaenoriaethau 'Grŵp Cynwysoldeb y Gwasanaeth Tân'. |

Mae GTAGC wedi sefydlu 'Grŵp Cynwysoldeb Tân ac Achub ar gyfer y Gwasanaeth'. Bydd aelod o'r Awdurdod Tân, gydag un o'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol', yn arwain y Grŵp Cynwysoldeb. Mae aelodau o'r staff sy'n cynrychioli aelodau â'r nodweddion gwarchodedig a'r undebau, wedi mynychu i drafod amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud yn fras â'r prif themâu isod:

- Diwylliant Cynhwysol;
- Recriwtio;
- Datblygiad;
- Cadw Staff.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Paratoi Llawlyfr Cymunedol ar gyfer y Gwasanaeth. |

Paratowyd Llawlyfr Cymunedol, ac mae'n rhoi cip ar y cymunedau amrywiol y gallai'r staff fod yn siarad â nhw wrth wneud eu gwaith. Bwriad y llawlyfr yw bod yw bod yn gyfeirlyfr i'r staff ei ddefnyddio i'w cynorthwyo i ddeall diwylliannau eraill. Cyflwynwyd y llawlyfr fel rhan o'r Wobr Iechyd Corfforaethol. Mae'r ddogfen ar gael i'r staff i gyd.

**Amcan Cydraddoldeb 3 - Addysg:** Drwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'i deilwra, a honno'n cael ei darparu'n unigol neu ar y cyd, grymuso pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i ostwng eu lefel eu hunain o risg o dân a pheryglon eraill yn ystod gwahanol gamau o'u bywydau.



**Beth wnaethon ni i gyflawni'r amcan hwn?**

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Creu Strategaeth Hyfforddi a Chynllun Gweithredu. |

Datblygwyd Strategaeth Datblygu Pobl a Threfniadaeth GTA Cymru gyfan (2018/2021), ac erbyn hyn mae'n rhan annatod o'r gwaith adolygu Strategaethau. Mae'n gyson â strategaethau a fframweithiau cenedlaethol eraill, yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig â saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Cyflwyno hyfforddiant yn ymwneud â'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig 2015. |

Gyda dyfodiad Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2015) (VAWDA), mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod yr holl staff yn cwblhau pecyn e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig. Yn 2017/18, roedd tua 60% o'r staff wedi cwblhau'r cwrs ac mae adroddiadau monitro yn cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru bob chwarter.

Mae aelodau o staff yr adran Hyfforddi a Datblygu wedi mynychu Bwrdd Strategol Comisiynu a Hyfforddi Rhanbarthol ar gyfer y Ddeddf. Mae'r camau nesaf yn yr hyfforddiant 'Gofynnwch a Gweithredwch' wedi cael eu trefnu, ac mae Cymorth i Ferched – Cymru wedi helpu i gyflwyno'r hyfforddiant. Cynhaliwyd y cwrs cyntaf ar y Ddeddf yn Ionawr 2017, a mynychodd chwe aelod o staff o wahanol adrannau. Mae cynllun pum mlynedd yn ei le i gyflwyno'r hyfforddiant i staff rheng flaen yn y sefydliad.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Bod yr adran Hyfforddi a Datblygu yn cydlynu ac yn darparu cyfarwyddyd ar gyfer hyfforddiant a datblygu yn y maes cydraddoldeb ac amrywiaeth. |

Mae'r adran hyfforddi a datblygu yn cynnig cysylltiad cynnar â'r staff i godi ymwybyddiaeth o'r broses ddyrchafu a'r ffaith fod datblygiad a chefnogaeth ar gael i staff ynghylch y broses. Hefyd, i gynorthwyo â dyrchafiad rheolwyr canol sydd newydd gael eu penodi a phrentisiaid, maent wedi cael mentor i weithio gyda nhw.

Mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi cydweithio ar 'Ganolfannau Asesu a Datblygu', gyda phrofion technegol a chyrsiau rheoli ar gael i'r broses dyrchafu goruchwylwyr., Rhoddir adborth a chysylltiad personol i gynorthwyo'r ymgeiswyr.

Mae modiwl e-ddysgu newydd ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi ei ddarparu i holl aelodau GTAGC ac mae hwn ar gael drwy Learn Pro.

**Amcan Cydraddoldeb 4 – Diogelwch Personol:** Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru drwy ddarparu gwasanaethau effeithiol i atal ac amddiffyn, ac ymateb i argyfyngau tân ac achub.



**Beth wnaethon ni i gyflawni'r amcan hwn?**

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Sicrhau bod staff rheng flaen yn ymwybodol o faterion fel troseddau casineb a thrais domestig ac aflonyddu, a bod ganddynt yr hyder i ddefnyddio prosesau i adrodd yn eu cylch. |

Mae staff rheng flaen sy'n gweithio i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cael gwybod am faterion yn ymwneud â throseddau casineb a thrais domestig ac aflonyddu rhywiol, ac maent yn hyderus i ddefnyddio'r prosesau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau os bydd rhai.

Mae'r adran Safonau Gwasanaeth Proffesiynol wedi parhau i sicrhau ansawdd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yr holl staff o drais domestig a throseddau casineb, ac erbyn hyn mae hyn wedi'i gynnwys yn arolygon y gweithlu.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Lleihau’r risg o anaf a marwolaeth oherwydd tân drwy gyflwyno systemau i gynyddu a gwella lefel argaeledd Gwybodaeth am Risgiau ar adeg yr alwad. |

Mae GTAGC wedi cael rhestr tir ac eiddo gorfforaethol y mae’n ei rheoli i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfeiriadau yn y System Gorchymyn a Rheoli er mwyn gwella cywirdeb gwybodaeth am leoliadau, a rheoli’r wybodaeth honno. A’r System Gorchymyn a Rheoli wedi’i chysylltu â’r System Rheoli Cofnodion Tân drwy’r rhestr eiddo newydd, mae’r system newydd nid yn unig yn gallu cyflwyno nid yn unig yn gallu cyflwyno ei gwybodaeth fewnol am risgiau, ond hefyd yr wybodaeth am risgiau uchel i ddiffoddwyr tân sydd yn y System Rheoli Cofnodion Tân.

At hynny, mae mwy o gydweithio rhwng ein partneriaid yn y gwasanaethau brys yn golygu bod modd rhannu llwyfannau technoleg gwybodaeth cyffredin i gyfnewid gwybodaeth yn fwy amserol gan hwyluso ymateb mwy effeithiol i gymunedau Gogledd Cymru.

**Amcan Cydraddoldeb 5 – Cynrychiolaeth a Llais:** Drwy fod yn agored ac atebol am yr hyn a wnawn a beth yw ein cynlluniau, annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses o benderfynu sut bydd gwasanaethau tân ac achub yn cael eu darparu yng Ngogledd Cymru, a cheisio cynyddu’r amrywiaeth o leisiau cynrychioliadol sy’n cyfrannu at y broses honno.



**Beth wnaethon ni i gyflawni’r amcan hwn?**

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Ymgynghori ac ymgysylltu’n well drwy gryfhau’r cysylltiadau rhwng y Sector Cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy’n cynrychioli pobl o bob grŵp gwarchodedig. |

Mae’r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus ledled Gogledd Cymru fel aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae digwyddiadau ymgynghori yn cael eu cynnal bob dwy flynedd, a gwahoddir pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i drafod y materion sydd o bwys iddynt. Mae’r data sy’n cael ei gasglu yn y digwyddiadau hyn yn cael ei ddefnyddio fel sail i Amcanion Cydraddoldeb Strategol y sefydliadau unigol, a hefyd igyd-amcanion y Rhwydwaith. Mae’r bartneriaeth yn cyfarfod bob mis, ac mae cynrychiolwyr o’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Llywodraeth Cymru yn mynychu hefyd.

Roedd yr ymgynghoriad ar amcanion strategol GTAGC ar gyfer 2018/19 (Datblygu Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer y Dyfodol) yn ymgynghoriad interim, a chafodd ei gynnal rhwng Mai a Gorffennaf 2017. Roedd y gwaith ymgysylltu’n cynnwys:

- Cysylltu’n uniongyrchol ar e-bost: Anfonwyd gwahoddiadau i ymateb, gyda dogfennau esboniadol, at restr o enwau a ffurfwyr barn, gan gynnwys grwpiau cynrychioliadol lleol;
- Ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol: cyhoeddwyd negeseuon Twitter – gan ddilyn grwpiau cynrychioliadol hysbys ar ein cyfrif Twitter er mwyn eu hannog nhw i’n dilyn ninnau;
- Ni chafodd taflen gryno ei chreu ar gyfer yr ymgynghoriad interim;
- Ar y cyd â’n partneriaid: gofynnwyd i’n partneriaid lleol rannu ac ail-drydar ein negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Amcan Cydraddoldeb 6 – Mynediad at Wasanaethau, Gwybodaeth ac Adeiladau:** Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebiadau yn GTAGC, a gwella mynediad corfforol at adeiladau'r gwasanaeth tân ac achub y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio neu'n ymweld â nhw.



**Beth wnaethon ni i gyflawni'r amcan hwn?**

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Sicrhau bod dulliau cyfathrebu priodol yn cael eu mabwysiadu i hyrwyddo negeseuon diogelwch blaenoriaethol a nodir gan yr adran Diogelwch Tân. |

Mae GTAGC yn sicrhau bod y dulliau cyfathrebu mwyaf priodol yn cael eu mabwysiadu wrth gyfathrebu â'r cyhoedd:

Mae'r ymgyrchoedd diogelwch cymunedol yn cael eu cydlynu drwy'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd – mae'r rhain yn cael eu trefnu ac yn cael yr adnoddau priodol cyn y flwyddyn i ddod, gydag amcanion clir a chael eu gwerthuso wedyn.
Mae'r dulliau cyfathrebu mwyaf priodol yn cael eu hystyried fel rhan o'r strategaethau a fabwysiedir, er enghraifft cafodd y 'fideo Reasons to Test' ei gomisiynu a'u gynhyrchu gyda'r nodweddion gwarchodedig yn benodol dan sylw.

Mae creu llenyddiaeth diogelwch tân ar lefel Cymru gyfan yn cael ei adolygu'n barhaus; bydd hyn yn cynnwys dogfennau hawdd eu darllen, ieithoedd lluosog, yn ogystal ag addasu terminoleg. Bydd pob agwedd ar gydraddoldeb yn cael ei hadolygu.

- Mae GTAGC yn mynychu digwyddiadau allweddol fel 'Pride';
- Erbyn hyn, mae clipiau sy'n addas i iaith arwyddion Prydain ar gael ar wefan GTAGC;
- Mae GTAGC yn cynnal digwyddiadau gweithredu cadarnhaol;
- Mae fideo recriwtio rhagorol ar gyfer y System Ar Alw RDS yng Nghymru gyfan wedi cael ei gynhyrchu ar y cyd â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru. Mae ar gael ar y wefan i ddarpar ymgeiswyr ei wylio.

| | |
|---|---|
| **Cam Arfaethedig** | Gwella mynediad i ymwelwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub â'r Ganolfan Reoli Cysylltiadau ar y Cyd. |

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn datgan y dylid gwneud 'addasiadau rhesymol' lle bo angen er mwyn sicrhau mynediad i bob adeilad. Ar ôl nodi bod hyn yn broblem bosibl o ran mynediad, mae'r llwybr o giât mynedfa'r Ganolfan Reoli ar y Cyd wedi cael ei ehangu ac erbyn hyn mae'n darparu mynediad dirwystr a diogel o'r palmant at y drws ffrynt, a hynny i'r staff ac ymwelwyr sydd â nam symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, dyma wybodaeth benodol am gyflogaeth mewn perthynas â gweithwyr ac ymgeiswyr ar 31 Mawrth 2018.

| Cyfanswm Nifer y Staff mewn Swydd – Ebrill 2017 i Fawrth 2018 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Nodwedd Warchodedig** | **Is-gategori** | **Staff yr Yst. Reoli** | **Staff Gweith-redol** | **Staff Cefn-ogol** |
| Oedran | 16-24 | 2 | 41 | 12 |
| | 25-34 | 9 | 184 | 24 |
| | 35-49 | 15 | 341 | 52 |
| | 50-54 | 6 | 98 | 17 |
| | 55-59 | 4 | 29 | 26 |
| | 60 a hŷn | 0 | 12 | 24 |
| | | | | |
| Anabledd Nam (hunan ddatgan) Ardystiwyd gan Iechyd Galwedigaethol | Anabledd Dysgu | 1 | 6 | 3 |
| | Nam Meddyliol | 0 | 4 | 4 |
| | Afiechyd neu Gyflwr Iechyd Hir | 5 | 8 | 4 |
| | Anffurfiad Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Nam Corfforol | 0 | 0 | 0 |
| | Nam ar y Synhwyrau | 0 | 6 | 2 |
| | | | | |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Partneriaeth Sifil (wedi'i chofrestr gyda'r un rhyw) | 0 | 9 | 2 |
| | Byw gyda Phartner | 5 | 116 | 12 |
| | Wedi Ysgaru | 1 | 36 | 12 |
| | Wedi Priodi | 17 | 319 | 76 |
| | Sengl | 12 | 187 | 47 |
| | Wedi Gwahanu | 0 | 24 | 3 |
| | Gweddw | 0 | 1 | 1 |
| | Heb ddweud | 1 | 13 | 2 |
| | | | | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Beichiog yn y Flwyddyn Ddiwethaf | 1 | 1 | 3 |
| | Mamolaeth yn y Flwyddyn Ddiwethaf | 1 | 1 | 5 |
| | | | | |
| Hil | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig *(Indiaidd/Pacistanaidd/ Bangladeshaidd/ Tsieineaidd)* | 0 | 2 | 0 |
| | Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 2 | 0 |
| | Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig | 0 | 4 | 0 |
| | Gwyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig) | 35 | 691 | 153 |
| | Gwyn Arall | 1 | 5 | 1 |
| | Heb ddweud | 0 | 1 | 1 |
| | | | | |
| Crefydd a Chred | Bwdhaidd | 0 | 3 | 1 |
| | Cristnogol (Pob enwad) | 21 | 321 | 87 |
| | Hindŵaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Iddewig | 0 | 0 | 0 |
| | Mwslimaidd | 0 | 1 | 0 |
| | Sikh | 0 | 0 | 0 |
| | Unrhyw Grefydd Arall | 0 | 9 | 3 |
| | Dim Crefydd | 9 | 283 | 40 |
| | Heb ddweud | 6 | 88 | 24 |

| Cyfanswm Nifer y Staff mewn Swydd – Ebrill 2017 i Fawrth 2018 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Nodwedd Warchodedig** | **Is-gategori** | **Staff yr Yst. Reoli** | **Staff Gweith-redol** | **Staff Cefn-ogol** |
| | | | | |
| Rhyw | Benyw | 30 | 40 | 83 |
| | Gwryw | 6 | 665 | 72 |
| | | | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Deurywiol | 0 | 1 | 0 |
| | Hoyw neu Lesbiaidd | 1 | 8 | 2 |
| | Heterorywiol (neu Strêt) | 31 | 654 | 144 |
| | Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Gwell gen i beidio â dweud/Heb ddweud | 4 | 42 | 9 |
| | | | | |
| Trawsryweddol | Benyw | 0 | 0 | 0 |
| | Rhyngrywiol | 0 | 0 | 0 |
| | Gwryw | 0 | 0 | 0 |
| | Gwell gen i beidio â dweud | 0 | 0 | 0 |
| | | | | |

| Cyfanswm Ceisiadau gan Staff am Gyflogaeth - Ebrill 2017 i Fawrth 2018 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Nodwedd Warchodedig** | **Is-gategori** | **Staff yr Yst. Reoli** | **Staff Gweith-redol** | **Staff Cefn-ogol** |
| Oedran | 16-24 | 3 | 291 | 107 |
| | 25-34 | 6 | 666 | 71 |
| | 35-49 | 5 | 293 | 51 |
| | 50-54 | 0 | 19 | 20 |
| | 55-59 | 0 | 9 | 10 |
| | 60 neu'n hŷn | 0 | 3 | 1 |
| | Heb ddweud | 0 | 1 | 6 |
| | | | | |
| Anabledd Nam (hunan-ddatgan) Ardystiwyd gan Iechyd Galwedigaethol | Nam Dysgu | 1 | 6 | 5 |
| | Nam Meddyliol | 0 | 1 | 0 |
| | Afiechyd neu Gyflwr Iechyd Hir | 2 | 8 | 6 |
| | Anffurfiad Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Nam Corfforol | 0 | 0 | 0 |
| | Nam ar y Synhwyrau | 0 | 0 | 4 |
| Hil | Asiadd/Asiaidd Prydeinig*Indiaidd/Pacistanaidd/ Bangladeshaidd/Tsieineaidd)* | 0 | 8 | 0 |
| | Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 5 | 2 |
| | Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig | 0 | 9 | 2 |
| | Gwyn *Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig)* | 13 | 1,210 | 256 |
| | Gwyn Arall | 1 | 15 | 1 |
| | Heb ddweud | 0 | 35 | 5 |

| Cyfanswm Ceisiadau gan Staff am Gyflogaeth - Ebrill 2017 i Fawrth 2018 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Nodwedd Warchodedig** | **Is-gategori** | **Staff yr Yst. Reoli** | **Staff Gweith-redol** | **Staff Cefn-ogol** |
| Crefydd a Chred | Bwdhaidd | 0 | 7 | 0 |
| | Cristnogol (Pob enwad) | 9 | 408 | 118 |
| | Hindŵaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Iddewig | 0 | 0 | 0 |
| | Mwslimaidd | 0 | 0 | 1 |
| | Sikh | 0 | 1 | 0 |
| | Unrhyw Grefydd Arall | 0 | 6 | 3 |
| | Dim Crefydd/Heb ddweud | 5 | 860 | 144 |
| | | | | |
| Rhyw | Benyw | 8 | 173 | 119 |
| | Gwryw | 6 | 1,118 | 147 |
| | | | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Deurywiol | 0 | 14 | 4 |
| | Hoyw neu Lesbiaidd | 0 | 32 | 3 |
| | Heterorywiol (neu Strêt) | 13 | 1,154 | 245 |
| | Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Gwell gen i beidio â dweud / Heb ddweud | 1 | 82 | 14 |
| | | | | |
| Trawsryweddol | Benyw | 0 | 0 | 0 |
| | Rhyngrywiol | 0 | 0 | 0 |
| | Gwryw | 0 | 3 | 0 |
| | Gwell gen i beidio â dweud | 0 | 4 | 0 |

| Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Llwyddiannus i GTAGC 2017/18 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Nodwedd Warchodedig** | **Is-gategori** | **Staff yr Yst. Reoli** | **Staff Gweith-redol** | **Staff Cefn-ogol** |
| Oedran | 16-24 | 2 | 24 | 13 |
| | 25-34 | 4 | 26 | 15 |
| | 35-49 | 2 | 26 | 5 |
| | 50-54 | 0 | 0 | 1 |
| | 55-59 | 0 | 1 | 2 |
| | 60 a hŷn | 0 | 0 | 1 |
| | | | | |
| Anabledd Nam (hunan ddatgan) Ardystiwyd gan iechyd Galwedigaethol | Anabledd Dysgu | 1 | 0 | 0 |
| | Nam Meddyliol | 0 | 0 | 0 |
| | Afiechyd neu Gyflwr Iechyd Hir* | 1 | 0 | 0 |
| | Anffurfiad Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Nam Corfforol | 0 | 0 | 0 |
| | Nam ar y Synhwyrau | 0 | 0 | 1 |
| | | | | |

| Cyfansswm Nifer y Ceisiadau Llwyddiannus i GTAGC 2017/18 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Nodwedd Warchodedig** | **Is-gategori** | **Staff yr Yst. Reoli** | **Staff Gweith-redol** | **Staff Cefn-ogol** |
| Hil | Asiaidd/Asiaidd Prydeinig *(Indiaidd/ Pacistanaidd/ Bangladeshaidd/Tsieneaidd)* | 0 | 1 | 0 |
| | Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 | 0 |
| | Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig | 0 | 0 | 0 |
| | Gwyn – *(Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig)* | 7 | 75 | 37 |
| | Gwyn Arall | 1 | 1 | 0 |
| | Heb ddweud | 0 | 0 | 0 |
| | | | | |
| Crefydd a Chred | Bwdhaidd | 0 | 1 | 0 |
| | Cristnogol (Pob enwad) | 5 | 23 | 23 |
| | Hindŵaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Iddewig | 0 | 0 | 0 |
| | Mwslimaidd | 0 | 0 | 0 |
| | Sikh | 0 | 0 | 0 |
| | Unrhyw Grefydd Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Dim Crefydd | 3 | 53 | 14 |
| | Heb ddweud | 0 | 0 | 0 |
| | | | | |
| Rhyw | Benyw | 5 | 9 | 19 |
| | Gwryw | 3 | 68 | 18 |
| | | | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Deurywiol | 0 | 2 | 0 |
| | Hoyw neu Lesbiaidd | 0 | 5 | 0 |
| | Heterorywiol (neu Strêt) | 8 | 68 | 35 |
| | Arall | 0 | 0 | 0 |
| | Gwell gen i beidio â dweud/Heb ddweud | 0 | 2 | 2 |
| | | | | |
| Trawsryweddol | Benyw | 0 | 0 | 0 |
| | Rhyngrywiol | 0 | 0 | 0 |
| | Gwell gen i beidio â dweud | 0 | 0 | 0 |

| Y 5% sy'n cael y cyflogau uchaf* - Ebrill 2017 i Fawrth 2018 | | |
|---|---|---|
| **Yr Holl Staff** | Dynion | Merched |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieneaidd) | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig | 0 | 0 |
| Gwyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig) | **27** | **5** |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Cyfanswm BME | **0** | **0** |
| Cyfanswm | **27** | **5** |

**Mae'r 7% uchaf fel y chwartel isaf o'r holl enillwyr yn yr un swydd*

| **Yr Holl Staff mewn Gweithdrefn Cwyn Cyflogaeth - Ebrill 2017 i Fawrth 2018 - *(Staff sydd wedi gwneud Cwyn)*** | | |
|---|---|---|
| **Yr Holl Staff** | Dynion | Merched |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieneaidd) | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig | 0 | 0 |
| Gwyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig) | **16** | **3** |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Cyfanswm BME | **0** | **0** |
| Cyfanswm | **16** | **3** |

| **Yr Holl Staff mewn Gweithdrefnau Disgyblu - Ebrill 2017 i Fawrth 2018 *(Staff a ymchwiliwyd ac aeth i Wrandawiad Disgyblu)*** | | |
|---|---|---|
| **Yr Holl Staff** | Dynion | Merched |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieneaidd) | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | **0** | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig | **0** | 0 |
| Gwyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig) | **6** | **1** |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Cyfanswm BME | **0** | **0** |
| Cyfanswm | **6** | **1** |

| **Nifer yr Ymadawyr - Ebrill 2017 i Fawrth 2018** | | |
|---|---|---|
| **Nifer y Staff Gweithredol sy'n gadael GTAGC** | Dynion | Merched |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieneaidd) | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig | 0 | 0 |
| Gwyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig) | **56** | 4 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Cyfanswm BME | **0** | **0** |
| Cyfanswm | **56** | **4** |
| **Nifer Staff yr Ystafell Reoli sy'n gadael GTAGC** | Dynion | Merched |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig(Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladeshaidd/Tsieneaidd) | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig | 0 | 0 |
| Gwyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig) | 0 | 0 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Cyfanswm BME | **0** | **0** |
| Cyfanswm | **0** | **0** |
| **Nifer y Staff Cefnogol sy'n gadael GTAGC** | Dynion | Merched |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig (Indiaidd/Pacistanaidd/Bangladesiaidd/Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 | 0 |
| Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig | 0 | **1** |
| Gwyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig) | **6** | **16** |
| Gwyn Arall | 0 | **0** |
| Cyfanswm BME | **0** | **0** |
| Cyfanswm | **6** | **17** |

**Beth mae'r Mesur yn mynnu bod yr Awdurdod yn ei wneud**

Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cymryd lle Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg yng Nghymru a rhaid peidio â'i thrin yn llai ffafriol. Erbyn hyn, nid oes raid i'r Awdurdod ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg ond rhaid iddo gydymffurfio â chyfres o Safonau'r Gymraeg.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi Hysbysiad Cydymffurfio i GTAGC ar 30 Medi 2016. Mae hwn yn rhestru'r Safonau (fel yn y rhestr lawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016) y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â nhw, ynghyd ag unrhyw eithriadau a dyddiadau gweithredu.

Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg am 2017/18 erbyn 30 Medi 2018 a rhaid iddo roi cyhoeddusrwydd priodol iddo.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau y dylid, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal er mwyn cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth cyfoethog cymunedau gyda threftadaeth naturiol a diwylliannol o bwys.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod bod dyletswydd arno tuag at ei staff hefyd, y rhan fwyaf ohonynt yn drigolion Gogledd Cymru ac sydd eu hunain yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau. Drwy gydnabod ei ddyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac ateb disgwyliadau'r gymuned leol, mae'r Awdurdod yn parhau i weithio tuag at sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.

**Mae Cynllun Gweithredu'r Awdurdod ar gael i'w weld gan ddefnyddio'r ddolen isod:**

http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337605/welsh-language-standards-implementation-plan-GTAGC.pdf

Yn ystod 2017/18, fe wnaeth yr Awdurdod barhau i gydymffurfio â chyfres o Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio ar 30 Medi 2016. Mae hefyd wedi parhau i weithio gyda'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall drwy Grŵp Iaith, a hefyd yn rhanbarthol gyda chydweithwyr o HGC ac YGAC.

## Monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg



Mae nifer o safonau'n ymwneud â chadw cofnodion y mae'n rhaid I'r Awdurdod eu cyhoeddi bob blwyddyn. Dyma fanylion isod:

| **Safon 147** | **Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg** |
|---|---|
| O'r 894 o weithwyr ar 31 Mawrth 2018, roedd 673 yn gallu dangos bod ganddynt sgiliau Cymraeg (lefel 2 ac uwch), ac roedd 343 ohonynt yn siaradwyr rhugl (Lefel 4 a 5).<br><br>Mae'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd ar dderbynfa, ac mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant i gyfarch yn ddwyieithog pan fyddant yn ateb y ffôn er mwyn canfod a chofnodi dewis iaith. Mae hyn yn berthnasol i alwadau mewnol ac allanol. Lluniwyd canllawiau, a chawsant eu cyhoeddi'n fewnol, ac mae disgwyl i bob aelod o'r staff fod yn atebol yn bersonol am ddilyn y drefn gywir er mwyn sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r gyfraith bob amser. | |

| **Standard 148** | **Nifer yr aelodau o'r staff sydd wedi mynychu hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cwynion, cynefino, delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch)** |
|---|---|
| | |
| Nid oes dim un o'r hyfforddiant yn y rhestr yn y Safonau Gweithredol Rhif 125 yn cael ei ddarparu yn Gymraeg nac yn Saesneg, ac eithrio iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, petai hyfforddiant o'r fath yn cael ei gynnig byddai'n cael ei hwyluso yn Gymraeg. Dewisodd tri o weithwyr ar y cwrs IOSH Rheoli'n Ddiogel wneud y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. | |

| **Standard 151** | **Nifer y swyddi newydd a gwag sy'n cael eu categoreiddio fel rhai lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, heb fod yn angenrheidiol neu bod angen ei dysgu** |
|---|---|
| Mae pob swydd yn gofyn am ryw lefel o Gymraeg, a'r lefel isaf yw Lefel 2 mewn siarad a gwrando. Yn ystod 2017/18, cafodd 25 o swyddi newydd a gwag eu hysbysebu a'u llenwi, roedd 12 ohonynt yn rhai ar Lefel 4 a 5 ac 13 ohonynt ar Lefel 2. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaeth GTAGC hefyd gyflogi 74 o ddiffoddwyr tân i'r system RDS (ar alw) a 27 o ddiffoddwyr tân i'r system Amser Cyflawn– rhaid i bob diffoddwr tân sy'n cael ei benodi gyrraedd Lefel 2 fel lefel ofynnol naill ai pan maent yn dechrau neu o fewn eu cyfnod prawf. | |

| **Standard 143** | **Nifer y cwynion a ddaeth i'r sefydliad am bob dosbarth o safonau** |
|---|---|
| Mae'r cwynion yn cael eu monitro a'u trin gan yr Adran Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth. Mae cwynion a llythyron o werthfawrogiad yn cael eu hadrodd yn flynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub.<br><br>Ni ddaeth unrhyw gwynion i law am y Gymraeg yn ystod 2017/18. Mae GTGAC wedi cyhoeddi trefn gwyno ar ei gwefan, ac mae ganddo bolisi mewnol i'r staff ynglŷn â sut i fynegi pryder neu gŵyn. | |

## Hyrwyddo'r Gymraeg



Eleni, mae polisi mewnol ar hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle wedi cael ei greu a'i ddosbarthu. Mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n fewnol mewn gwahanol ffyrdd, sef drwy Gynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg, y Golofn Gymraeg yn y cylchgrawn mewnol 'Y Fflam', yn ystod bwletinau wythnosol i'r staff, yr ymgyrch Welsh Wednesday, a thrwy Facebook y Gweithle lle bydd gair Cymraeg yn cael ei ddosbarthu a'i esbonio bob dydd i'r rhai sy'n dysgu'r iaith. Mae gwobr Dysgwr y Flwyddyn, a'r Wobr Ymrwymiad i'r Gymraeg.

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn canfod beth yw dewis iaith darpar weithwyr yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf, ac mae'n cofnodi'r wybodaeth at y dyfodol. Mae'n cadw cofnod o bob aelod o'r staff sydd wedi dweud eu bod yn dymuno cael gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, a gellir adolygu'r dewis hwn unrhyw bryd. Cyfieithwyd pob polisi a ffurflen Adnoddau Dynol sy'n ymwneud â chyflogaeth yr unigolyn, ac maent yn cael eu cyhoeddi'n fewnol. Hefyd, mae cwynion a materion disgyblu yn cael eu hwyluso drwy gyfrwng y Gymraeg os gwneir cais am hynny, a dangosir parch bob amser at ddewis iaith yr unigolyn.

Mae'r adran Hyfforddi yn cadw cofnod o'r holl gyrsiau Cymraeg y mae gweithwyr yn eu mynychu a'r asesiadau sy'n cael eu gwneud, ac mae'n cofnodi'r canlyniadau yn ei system gofnodi fewnol. Eleni, cynigiwyd cyrsiau o Lefel 2 i Gloywi Iaith i bob aelod o'r staff gan ddarparwr allanol, sef Coleg Cambria, yn ogystal â chyrsiau ychwanegol i ddiwallu anghenion gweithwyr er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r Safonau ac yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys hyfforddiant cyfryngau yn Gymraeg, 'Trydar' yn Gymraeg drwy Brifysgol Bangor, hwyluso cyfarfodydd a digwyddiadau dwyieithog, a chreu ethos Cymraeg yn y gweithle i reolwyr a swyddogion drwy Gwmni Iaith Cyf.

Mae GTGAC yn cynnal cynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg, sef gweithwyr Cymraeg yn cefnogi aelodau o staff ar draws y Gwasanaeth i wella eu sgiliau iaith. Mae'r Hyrwyddwyr wedi cymryd rhan mewn seminar ynghyd â chydweithwyr o HGC i ddosbarthu arferion da a thrafod dulliau o hyrwyddo'r Gymraeg. Mae grŵp ffocws gyda'r Hyrwyddwyr presennol hefyd wedi cael ei gynnal i weld pa fesurau y gellir eu gweithredu i hyrwyddo rhagor y Gymraeg ac i'w gwneud yn haws i'w dysgu. Yn ystod y grŵp ffocws, dewiswyd logo newydd i'r Hyrwyddwyr ei ddefnyddio ar lofnodion e-bost er mwyn gallu gweld yn hawdd pwy yw'r Hyrwyddwyr.

Mae pob polisi newydd a diwygiedig yn cael ei gyhoeddi'n fewnol yn Gymraeg a Saesneg, a rhaid i bob polisi gael asesiad effaith integredig cysylltiedig i ganfod ei effaith ar y Gymraeg ac i ganfod a hyrwyddo ffyrdd o greu effaith gadarnhaol ac osgoi unrhyw effaith negyddol.

Fel gyda'r Polisi blaenorol ar y Gymraeg, mae'r gwaith yn parhau i gynnig dewis iaith i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau, a bu hyn yn fuddiol ac yn ffordd o ymgysylltu'n well â phob aelod o'r gymuned. Mae Archwiliadau Diogel ac Iach yn parhau i gael eu hyrwyddo drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ar y cyfryngau cymdeithasol, ac mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, posteri a thaflenni yn ddwyieithog, a'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf bob tro.

Rhoddwyd canllawiau i'r staff am bwysigrwydd cynnig dewis iaith i bawb, boed wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, ni waeth beth yw'r lleoliad, yr acen, yr ethnigrwydd ac ati. Mae'r neges hon yn cael ei hailadrodd yn y modiwl gorfodol ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg sydd wedi cael ei greu ar gyfer y staff, yn ystod y sesiynau wyneb yn wyneb i staff newydd ac yn ystod y cwrs hyfforddi cychwynnol i'r diffoddwyr tân.

Gan fod yr Awdurdod yn cydnabod gwerth a mantais cynnig dewis iaith, mae wedi parhau i weithredu Ystafell Reoli gwbl ddwyieithog er nad oes gofyniad statudol i ateb galwadau 999 yn ddwyieithog. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod dyletswydd foesol ac egwyddorol arno i ddelio'n effeithiol â phobl mewn argyfyngau felly mae'n mynd y tu hwnt i'r Safonau i ddelio â digwyddiadau'n effeithiol yn newis iaith y sawl sy'n galw.

Paratowyd canllawiau ar ryddhau gohebiaeth i'r cyhoedd, ac mae pob llofnod e-bost a phapur pennawd yn cynnwys datganiad sy'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae logos Siarad Cymraeg a Dysgu Cymraeg wedi cael eu cynnwys yn y llofnod e-bost safonol.

Mae gwefan GTAGC yn gwbl ddwyieithog, ac mae hyn yn cynnwys cyfleusterau ReadSpeaker drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ymholiadau drwy'r wefan yn cael eu hateb yn newid iaith y sawl sy'n eu derbyn.

Welsh

Cymraeg

## SUT MAE AWDURDDOD TâN AC ACHUB GOGLEEDD CYMRU YN CYMHARU?

Drwy gymharu ein hunain ag eraill, gallwn gael dangosyddion defnyddiol o le y gallwn ni wella. Er nad oes gwybodaeth ar gael bob amser i'n helpu ni i wneud hyn, neu mae'r wybodaeth mor wahanol fel nad oes gwerth cymharu, mae rhai enghreifftiau i'n helpu ni i archwilio'r gwahaniaethau.

Mae cymariaethau rhwng awdurdodau tân ac achub yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cynhyrchu yn y ddogfen hon gan ddefnyddio ffigyrau a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, Ystadegau ac Ymchwil ar gyfer Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu). Weithiau, rydyn ni'n canfod amrywiadau bach rhwng y ffigyrau hyn a'n ffigyrau ni ein hunain, fel arfer oherwydd gwaith sicrhau ansawdd ar ein data ein hunain yn ddiweddarach. Ar gyfer cymharu, mae'r data allanol a gyhoeddwyd wedi cael ei gadw yn y ddogfen hon yn y ffurf y cafodd ei gyhoeddi.

Mae cymariaethau gweithgarwch yn yr adran hon yn seiliedig ar ffigyrau 2016/17, neu ffigyrau 2017/18 pan mae'r rheini ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys ystadegau tân a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru, a'r ffigyrau poblogaeth a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae dolenni i'r ffynonellau allanol ar gael yn yr adran 'gwybodaeth arall' ar ddiwedd y ddogfen hon.


**Yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt**

Aeth yr Awdurdod at gyfanswm o 5,733 o danau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig yng Ngogledd Cymru yn ystod 2017/18, sef cynnydd o 7 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol sef 2016/17, ond nifer sy'n cyfateb i 33 y cant o ostyngiad dros y 10 mlynedd ddiwethaf. O'r 5,733 o ddigwyddiadau, roedd 2,029 ohonynt yn danau (35 y cant); hefyd roedd 2,112 yn alwadau diangen (37 o'r digwyddiadau), a 1,592 yn ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig (28 y cant). Mae'r 5,733 o ddigwyddiadau yng Ngogledd Cymru yn cyfateb i ryw 16% o'r 36,764 o ddigwyddiadau yng Nghymru.

Ers 2008/09, mae'r holl fathau o ddigwyddiadau ac eithrio digwyddiadau gwasanaeth arbennig wedi gostwng yng Ngogledd Cymru; mae nifer y tanau wedi gweld tueddiad am i lawr gan ostwng 41 y cant dros y 10 mlynedd ddiwethaf ac mae nifer y galwadau diangen 42 y cant yn is nag yn 2008/09; mae'r tueddiadau hyn yn debyg ar draws y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru.

Mae nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig wedi amrywio dros y deng mlynedd ers 2008/09; bu tueddiad cyffredinol am i lawr at 2014/15, ac wedyn mae'r niferoedd wedi codi. Erbyn diwedd 2017/18, roedd nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd atynt 3 y cant y uwch o gymharu ag yn 2008/09, sy'n adlewyrchu'r cynnydd yn y gweithgareddau cydweithio gydag YGAC yn ogystal â HGC; mae'r tueddiad hwn yn debyg ledled Cymru ac yn cyd-daro â chyflwyno, yn 2015, gynlluniau treialu'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar ymateb meddygol brys lle mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ffurfio cytundebau ag ymddiriedolaethau ambiwlans i wneud gwaith yn ymwneud â gofal iechyd – yn enwedig cyd-ymateb.

## Tân, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig yng Ngogledd Cymru




Ffynhonnell: StatsCymru

## Nifer y tanau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig yng Nghymru

| | Galwadau diangen | Prif danau | Tanau eilaidd | Tanau simnai | Digwyddiadau gwasanaeth arbennig | **Yr holl ddigwydd-iadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2008/09 | 18,855 | 6,985 | 11,724 | 812 | 10,917 | **49,293** |
| 2009/10 | 16,901 | 6,800 | 11,562 | 790 | 10,288 | **46,341** |
| 2010/11 | 17,006 | 6,414 | 13,503 | 771 | 9,187 | **46,881** |
| 2011/12 | 15,874 | 5,687 | 10,162 | 615 | 7,659 | **39,997** |
| 2012/13 | 15,088 | 4,745 | 5,922 | 771 | 9,725 | **36,251** |
| 2013/14 | 15,312 | 4,790 | 7,801 | 578 | 10,118 | **38,599** |
| 2014/15 | 15,485 | 4,561 | 6,541 | 549 | 9,289 | **36,425** |
| 2015/16 | 14,491 | 4,678 | 6,998 | 432 | 10,151 | **36,750** |
| 2016/17(r) | 14,790 | 4,757 | 5,576 | 417 | 11,676 | **37,216** |
| 2017/18(p) | 14,161 | 4,315 | 6,299 | 406 | 11,583 | **36,764** |
| % newid 2016/17 i 2017/18 | -4 | -9 | 13 | -3 | -1 | **-1** |

(a) am bob miliwn o bobl. Daw data poblogaeth o Amcangyfrifon Canol Blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol a adolygir yn rheolaidd felly mae'r cyfraddau'n agored i newid rhwng cyhoeddiadau.
(r) Data diwygiedig.
(p) Data amcanol.

Ffynhonnell: Ystadegau digwyddiadau tân ac achub 2017/18

## Tanau

**Cyfanswm y Tanau** – mae cyfanswm y tanau yng Nghymru wedi gweld tueddiad am i lawr ers 2001-02, ond yn y blynyddoedd diweddar mae'r tueddiad wedi dod yn llai clir, gyda'r niferoedd yn aros rhwng rhyw 11,000 a 13,000. Yng Ngogledd Cymru, mae'r ffigwr fymryn yn uwch na 2,000 o danau y flwyddyn ac mae hyn yn ostyngiad o 41 y cant dros y 10 mlynedd ddiwethaf.


**Nifer y tanau yr aethpwyd atynt yng Nghymru**

| | Gogledd Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru | De Cymru | **Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| 2008/09 | 3,419 | 5,376 | 10,726 | **19,521** |
| 2009/10 | 3,384 | 5,078 | 10,690 | **19,152** |
| 2010/11 | 3,299 | 5,625 | 11,764 | **20,688** |
| 2011/12 | 3,186 | 4,518 | 8,760 | **16,464** |
| 2012/13 | 2,350 | 3,245 | 5,843 | **11,438** |
| 2013/14 | 2,416 | 3,914 | 6,839 | **13,169** |
| 2014/15 | 2,244 | 3,489 | 5,918 | **11,651** |
| 2015/16 | 2,140 | 3,392 | 6,576 | **12,108** |
| 2016/17(r) | 2,015 | 2,937 | 5,798 | **10,750** |
| 2017/18(p) | 2,029 | 3,199 | 5,792 | **11,020** |
| % newid 2016/17 i 2017/18 | 1 | 9 | 0 | **3** |

(r) Data a ddiwygiwyd.
(p) Data dros dro.

Ffynhonnell: Ystadegau digwyddiadau tân ac achub 2017-18

Yng Nghymru, Gogledd Cymru sydd â gyfradd isaf o danau am bob 10,000 o bobl, gyda chyfraddau thebyg yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru o gymharu ar draws Cymru a Lloegr.




Ffynhonnell: CIPFAStats.net

## Tanau yn ôl cymhelliad

Mae niferoedd y prif danau damweiniol a phrif danau bwriadol yn dangos tueddiad tymor hir am i lawr. Mae hyn yr un fath i Ogledd Cymru a ledled Cymru. Mae tanau eilaidd, yn rhai damweiniol ac yn rhai sy'n cael eu cynnau'n fwriadol, yn dangos tueddiad cyffredinol am i lawr ond mae'r rheini wedi bod yn agored i amrywiadau, gan adlewyrchu pa mor gymhleth yw'r rhesymau pam mae'r tanau'n digwydd. Mae cyd-berthynas gyda'r tywydd (mae nifer y tanau eilaidd yn tueddu i ostwng yn y blynyddoedd mwy gwlyb) felly defnyddir gwahanol ddulliau ataliol i atal y tanau rhag digwydd, gan gynnwys gweithio gyda'r heddlu ac ysgolion.

Yn ystod 2017/18, aethpwyd at gyfanswm o 650 o danau yng Ngogledd Cymru y credid eu bod wedi'u cynnau'n bwriadol, o gymharu â 594 yn y flwyddyn flaenorol; roedd hyn yn cyfateb i fymryn dros 10% o'r 6,371 o'r holl danau bwriadol yr aethpwyd atynt ledled Cymru yn 2017/18.

Mae'r tabl isod yn cyfeirio at brif danau a thanau eilaidd. O ran tanau simnai, aeth GTAGC at 141 o'r 406 yng Nghymru (nid yw'r rhain wedi'u cynnwys).


**Nifer y prif danau a thanau eilaidd yn ôl cymhelliad**

| | Gogledd Cymru | | | | Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prif damwein. | Prif bwriadol | Eilaidd damwein. | Eilaidd bwriadol | Prif. damwein. | Prif bwriadol | Eilaidd damwein. | Eilaidd bwriadol |
| 2008/09 | 962 | 533 | 508 | 1,036 | 3,894 | 3,091 | 1,291 | 10,433 |
| 2009/10 | 1,007 | 483 | 487 | 1,056 | 3,914 | 2,886 | 1,540 | 10,022 |
| 2010/11 | 973 | 375 | 561 | 1,065 | 3,930 | 2,484 | 1,691 | 11,812 |
| 2011/12 | 937 | 370 | 619 | 1,006 | 3,636 | 2,051 | 1,566 | 8,596 |
| 2012/13 | 858 | 286 | 338 | 549 | 3,340 | 1,405 | 929 | 4,993 |
| 2013/14 | 874 | 243 | 538 | 549 | 3,445 | 1,345 | 1,577 | 6,224 |
| 2014/15 | 841 | 222 | 461 | 503 | 3,347 | 1,214 | 1,321 | 5,220 |
| 2015/16 | 796 | 253 | 468 | 450 | 3,308 | 1,370 | 1,241 | 5,757 |
| 2016/17(r) | 839 | 246 | 431 | 348 | 3,363 | 1,394 | 1,036 | 4,540 |
| 2017/18(p) | 780 | 215 | 458 | 435 | 3,116 | 1,199 | 1,127 | 5,172 |
| % y newid 2016/17 i 2017/18 | -7 | -13 | 6 | 25 | -7 | -14 | 9 | 14 |

(r) Data a ddiwygiwyd.
(p) Data dros dro.

Ffynhonnell: StatsCymru

### Nifer y prif danau a thanau eilaidd yng Ngogledd Cymru yn ôl cymhelliad




Ffynhonnell: StatsCymru

### Prif Danau

Yn 2017/18, mae'r ffigyrau amcanol yn dangos bod nifer y prif danau yng Nghymru wedi gostwng 9 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a hynny i 4,315. Roedd pob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub wedi gweld gostyngiad yn nifer y prif danau, 13 y cant yn Ne Cymru, 8 y cant yng Ngogledd Cymru a 3 y cant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Yng Ngogledd Cymru, fe wnaeth nifer y prif danau ostwng yn is na 1000 o danau am y tro cyntaf.


### Nifer y prif danau yng Nghymru fesul Awdurdod Tân ac Achub

| | Gogledd Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru | De Cymru | **Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| 2008/09 | 1,495 | 2,042 | 3,448 | **6,985** |
| 2009/10 | 1,490 | 1,914 | 3,396 | **6,800** |
| 2010/11 | 1,348 | 1,862 | 3,204 | **6,414** |
| 2011/12 | 1,307 | 1,648 | 2,732 | **5,687** |
| 2012/13 | 1,144 | 1,353 | 2,248 | **4,745** |
| 2013/14 | 1,117 | 1,498 | 2,175 | **4,790** |
| 2014/15 | 1,063 | 1,443 | 2,055 | **4,561** |
| 2015/16 | 1,049 | 1,409 | 2,220 | **4,678** |
| 2016/17(r) | 1,085 | 1,411 | 2,261 | **4,757** |
| 2017/18(p) | 995 | 1,362 | 1,958 | **4,315** |
| % newid 2016/17 i 2017/18 | -8 | -3 | -13 | **-9** |

(r) Data a ddiwygiwyd.
(p) Data dros dro.

Ffynhonnell: Ystadegau digwyddiadau tân ac achub 2017/18


Mae cyfradd y prif danau am bob 10,000 o boblogaeth hefyd yn debyg yn y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru.




Ffynhonnell: CIPFA.net

Cynhyrchwyd y map isod gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n dangos y crynoadau uwch o brif danau sy'n digwydd mewn ardaloedd trefol dwys eu poblogaeth.

# Tanau Eilaidd ar draws Cymru, 2017-18





Ffynhonnell: Ystadegau digwyddiadau tân ac achub 2017/18

Drwy ddadansoddi rhagor ar y prif danau yng Ngogledd Cymru, isod, gwelir gostyngiad yn niferoedd y tanau hyn, sef tueddiad am i lawr yn y tymor hir. Mae ***lleoliad*** y prif danau a'r anafusion ynddynt yn tynnu sylw at y ffaith fod cyfran sylweddol o'r digwyddiadau o'r fath yn digwydd o ganlyniad i danau mewn cartrefi, ac mae'r maes yn parhau i fod yn ffocws allweddol i'n hamcanion llesiant a'n gweithgareddau ataliol. *Sylwer, mae 'lleoliad' yn cyfeirio'n fras at y math o eiddo dan sylw, e.e. Cartref; Cerbyd ffordd; Adeilad arall; Prif danau eraill (gan gynnwys prif danau yn yr awyr agored).*


Mae'r ffigyrau amcanol ar gyfer Cymru yn dangos bod 15 o farwolaethau yn ystod 2017/18; dyma'r nifer isaf ers 2008/09 o leiaf, ac am i lawr y bu'r tueddiad cyffredinol ers 2001/02, ond mae'r niferoedd yn fach ac yn agored i amrywio. Yn 2017/18, roedd y cyfradd marwolaethau am bob miliwn o bobl yng Ngogledd Cymru a De Cymru yr isaf yn y gyfres amser, ond gwelodd Canolbarth a Gorllewin Cymru y gradd uchaf ers 2009/10.

**Nifer y prif danau yng Ngogledd Cymru yn ôl lleoliad**




Ffynhonnell: Stats Cymru

**Nifer y marwolaethau oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru yn ôl lleoliad**





Ffynhonnell: Stats Cymru


**Tanau mewn cartrefi**

A mymryn dros 2,000 o danau y flwyddyn yng Ngogledd Cymru, tanau mewn cartrefi yw tua un rhan o bump ohonynt, ac mae mwyafrif helaeth y rhain yn cynnau'n ddamweiniol, er bod pobl hefyd yn fwy tebygol o gael eu hanafu gan dân yn eu cartref eu hunain nag yn unrhyw le arall. Yn galonogol, dim ond cyfran fach o'r tanau yng Ngogledd Cymru sy'n brif danau bwriadol.

**Nifer y prif danau mewn cartrefi yng Nghymru yn ôl cymhelliad**




Ffynhonnell: Stats Cymru




Ffynhonnell: CIPFA.net

## Anafusion oherwydd tanau mewn cartrefi

Ledled Cymru yn yr 17 mlynedd ers 2001/02, mae 77 y cant o'r anafusion angheuol wedi digwydd mewn tanau mewn cartrefi, sy'n cyfateb i gyfanswm o 297 allan o 386 o farwolaethau. Yn ôl ffigyrau amcanol, bu 15 marwolaeth yng Nghymru yn ystod 2017/18. Roedd bron i dri chwarter y rhain wedi digwydd o ganlyniad i danau mewn cartrefi, sef cyfran debyg i'r hyn a welwyd yn y flwyddyn flaenorol. Yng Nghymru, collodd un person ei fywyd oherwydd tân mewn cartref, a chafodd y tân hwnnw ei gynnau'n ddamweiniol.

## Nifer a chyfradd yr anafusion angheuol oherwydd tanau fesul Awdurdod Tân ac Achub

| | Gogledd Cymru | | Canolbarth a Gorllewin Cymru | | De Cymru | | **Cymru** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | abm(a) | Nifer | abm(a) | Nifer | abm(a) | **Nifer** | **abm(a)** |
| 2008/09 | 3 | 4.4 | 5 | 5.6 | 9 | 6.2 | **17** | **5.6** |
| 2009/10 | 8 | 11.7 | 11 | 12.4 | 4 | 2.7 | **23** | **7.6** |
| 2010/11 | 10 | 14.6 | 7 | 7.9 | 4 | 2.7 | **21** | **6.9** |
| 2011/12 | 8 | 11.6 | 8 | 9.0 | 7 | 4.7 | **23** | **7.5** |
| 2012/13 | 8 | 11.6 | 3 | 3.3 | 6 | 4.0 | **17** | **5.5** |
| 2013/14 | 3 | 4.3 | 8 | 8.9 | 6 | 4.0 | **17** | **5.5** |
| 2014/15 | 5 | 7.2 | 8 | 8.9 | 7 | 4.7 | **20** | **6.5** |
| 2015/16 | 6 | 8.7 | 4 | 4.4 | 9 | 6.0 | **19** | **6.1** |
| 2016/17(r) | 5 | 7.2 | 7 | 7.8 | 7 | 4.6 | **19** | **6.1** |
| 2017/18(p) | 2 | 2.9 | 11 | 12.2 | 2 | 1.3 | **15** | **4.8** |


(a) am bob miliwn o bobl. Daw data poblogaeth o Amcangyfrifon Canol Blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol a adolygir yn rheolaidd felly mae'r cyfraddau'n agored i newid rhwng cyhoeddiadau.
(r) Data diwygiedig
(p) Data amcanol.

Ffynhonnell: StatsCymru

## Anafusion nad oeddent wedi marw

Yn 2017/18, roedd pob Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru wedi cael gostyngiad yn nifer (a chyfradd) yr anafusion nad oeddent wedi marw. De Cymru oedd â'r gyfradd isaf am bob miliwn o bobl. Yn ystod 2017/18 yng Ngogledd Cymru, cafwyd 41 o anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi, ac roedd 39 ohonynt yn rhai bach ond roedd 2 yn ddigon difrifol i fod angen aros yn yr ysbyty dros nos. Felly, mae'r Awdurdod yn dal i ganolbwyntio ar atal tanau, gan dargedu ei waith yn effeithiol a gweithio gyda sefydliadau eraill i wneud cymaint â phosibl i helpu i gadw pobl i aros yn ddiogel yn eu cartrefi.

**Anafusion nad oeddent wedi marw oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru, yn ôl pa mor ddifrifol yw'r anaf**




*Fe wnaeth dyfodiad yr IRS cenedlaethol yn 2009/10 arwain at newid yn y ffordd o gofnodi anafusion nad oedd wedi marw a rhoi'r gorau i hynny o bosibl, yn enwedig yn nifer y rhai a oedd yn cael archwiliadau rhagofalus.*

## Presenoldeb larymau mwg mewn cartrefi

Rhan o'r neges ataliol bwysig yw hyrwyddo presenoldeb larymau mwg a gofalu amdanynt, a hynny i helpu i rybuddio'n gynnar fod tân ac i roi amser ychwanegol gwerthfawr i adael y safle. Mae'r Awdurdod wedi llwyddo i gynnal mwy na 20,000 o Archwiliadau Diogel ac Iach fel rhan o'i ymgyrch ataliol yn 2017/18.

O'r tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt yng Ngogledd Cymru yn ystod 2017/18, nid oedd larwm mwg ar gael yn 16 y cant ohonynt, a dyma'r ganran isaf yng Nghymru; yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru, mae hyn yn fwy na 40 y cant. Fodd bynnag, mae'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru wedi gweld mymryn o gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol felly byddwn ni'n parhau i fonitro'r ffigwr hwn ledled Cymru drwy Ddangosyddion Perfformiad y Sector yng Nghymru.

**Canran y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt lle nad oedd larwm mwg yno**

| | Gogledd Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru | De Cymru | **Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| 2008/09 | 24.50 | 33.33 | 45.97 | **36.62** |
| 2009/10 | 25.14 | 44.02 | 53.02 | **43.40** |
| 2010/11 | 16.45 | 42.14 | 46.68 | **37.58** |
| 2011/12 | 15.09 | 39.67 | 41.66 | **34.09** |
| 2012/13 | 14.60 | 33.04 | 37.94 | **30.47** |
| 2013/14 | 16.18 | 37.78 | 36.54 | **31.41** |
| 2014/15 | 11.87 | 34.63 | 40.43 | **31.53** |
| 2015/16 | 14.49 | 37.69 | 36.28 | **31.49** |
| 2016/17(r) | 15.20 | 39.00 | 39.24 | **33.10** |
| 2017/18(p) | 15.88 | 41.95 | 40.32 | **34.51** |

(p) Data amcanol.

Ffynhonnell(Ffynonellau): 2008/09 i 2014/15 Stats Cymru, 2015/16 i 2017/18 DPau y Sector Cymru

**Tanau ar safleoedd annomestig**

Mae mwy o reoliadau diogelwch tân yn bodoli ar gyfer safleoedd annomestig o gymharu â safleoedd domestig. Mae tueddiad cyffredinol am i lawr yn nifer y tanau hyn ledled Cymru, sef 46 y cant yn is yn y 10 mlynedd ers 2008/09. Yng Ngogledd Cymru, bu gostyngiad o fwy na 50 y cant ers 2008/09 a gostyngiad o 15 y cant yn 2017/18 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Nifer y tanau yr aethpwyd atynt ar safleoedd annomestig fesul Awdurdod Tân ac Achub**

| | Gogledd Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru | De Cymru | **Cymru** |
|---|---|---|---|---|
| 2008/09 | 258 | 347 | 441 | **1046** |
| 2009/10 | 256 | 315 | 569 | **1140** |
| 2010/11 | 229 | 333 | 460 | **1022** |
| 2011/12 | 215 | 282 | 354 | **851** |
| 2012/13 | 147 | 220 | 346 | **713** |
| 2013/14 | 115 | 240 | 324 | **679** |
| 2014/15 | 139 | 227 | 351 | **717** |
| 2015/16 | 160 | 223 | 242 | **625** |
| 2016/17(r) | 144 | 193 | 232 | **569** |
| 2017/18(p) | 122 | 220 | 219 | **561** |
| % newid 2016-17 i 2017-18 | -15 | 14 | -6 | **-1** |

(p) Data amcanol.

Ffynhonnell(Ffynonellau): 2008/09 i 2014/15 Stats Cymru, 2015/16 i 2017/18 DPau y Sector Cymru

Rhwng 28 Tachwedd 2014 a 30 Ionawr 2015, cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch cyfres newydd o Ddangosyddion Perfformiad. Cyhoeddwyd copi o'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/consultations/people-and-communities/performance-indicators-consultation/?status=closed&lang=en

O ganlyniad i hynny, cyflwynwyd Gorchymyn yn nodi tri Dangosyddion Perfformiad Statudol. Daeth Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015 (O.S.2015/604(Cy.49)) i rym ar 1 Ebrill, ac mae'n cael effaith mewn perthynas â'r flwyddyn 2015/16 a'r blynyddoedd ariannol wedi hynny.

| DANGOSYDDION STATUDOL (ATAGC) | | | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|
| RRC/S/001i | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y tanau yr aethpwyd atynt | 2,015 | 2,029 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,473 | 695,822 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | | **28.96** |
| RRC/S/001ii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y galwadau diangen yr aethpwyd atynt | 2,140 | 2,112 |
| | Enwadur | Poblogaeth ardal yr ATA | 694,473 | 695,822 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | | **30.75** |
| RRC/S/001iii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt | 215 | 206 |
| | Enwadur | Poblogaeth yr ATA | 694,473 | 695,822 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | | **3.09** |
| RRC/S/001iv | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr argyfyngau eraill yr aethpwyd atynt | 978 | 1,386 |
| | Enwadur | Poblogaeth yr ATA | 694,473 | 695,822 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | | **14.06** |
| RRC/S/002i | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tân | 50 | 63 |
| | Enwadur | Poblogaeth yr ATA | 694,473 | 695,822 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | | **7.19** |
| RRC/S/002ii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau a gafodd eu cynnau'n ddamweiniol | 44 | 59 |
| | Enwadur | Poblogaeth yr ATA | 694,473 | 695,822 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | | **6.32** |
| RRC/S/003 | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y tanau mewn cartrefi a gafod eu cyfyngu i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn | 419 | 375 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer y tanau mewn cartrefi | 467 | 422 |
| | | | | **89.72** |

## Dangosyddion y Sector 2017/18


O ganlyniad i'r newidiadau yn y dangosyddion perfformiad sy'n cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru a'r ffaith ei bod wedi gostwng y nifer a'r amrediad sydd ar gael, mae'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru wedi cytuno ar gyfres gyson o ddangosyddion y sector yn ychwanegol at y dangosyddion statudol sy'n darparu gwybodaeth fwy manwl i'w defnyddio i gymharu. Mae dangosyddion y sector yn cael eu rhannu gan y tri Awdurdod Tân ac Achub bob blwyddyn ym mis Medi ac maent yn cael eu cyhoeddi ar wahân ond maent ar gael fel dogfen gyfunol os gwneir cais am hynny.

| DANGOSYDDION Y SECTOR[8] | | | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|
| SEC/FI/001i | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr holl danau bwriadol | 594 | 650 |
| | Enwadur | Poblogaeth yr ATA | 694,473 | 695,822 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | **8.55** | **9.34** |
| SEC/FI/001ii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr holl danau damweiniol (neu lle nad yw'r cymhelliad yn hysbys) | 1,421 | 1,379 |
| | Enwadur | Poblogaeth yr ATA | 694,473 | 695,822 |
| | **am bob 10,000 o boblogaeth** | | **20.46** | **19.82** |
| SEC/FI/001iii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y tanau mewn cartref | 467 | 422 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer y cartrefi yn ardal yr ATA | 324,299 | 326,047 |
| | **Am bob 10,000 o gartrefi** | | **14.40** | **12.94** |
| SEC/FI/001iv | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi | 433 | 386 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer y cartrefi yn ardal yr ATA | 324,299 | 326,047 |
| | **am bob 10,000 o gartrefi** | | **13.35** | **11.84** |
| SEC/FI/001v | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y tanau bwriadol mewn cartrefi | 34 | 36 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer y cartrefi yn ardal yr ATA | 324,299 | 326,047 |
| | **am bob 10,000 o gartrefi** | | **1.05** | **1.10** |
| SEC/FI/001vi | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y tanau ar safleoedd annomestig | 144 | 122 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer y safleoedd annomestig yn ardal yr ATA | 29,175 | 29,563 |
| | **per 1,000 o safleoedd annomestig** | | **4.94** | **4.13** |
| SEC/IN/002i | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y marwolaethau'n gysylltiedig â thân | 5 | 2 |
| | Enwadur | Poblogaeth yr ATA | 694,473 | 695,822 |
| | **am bob 100,000 o boblogaeth** | | **0.72** | **0.29** |
| SEC/IN/002ii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr anafiadau a achoswyd gan danau | 45 | 61 |
| | Enwadur | Poblogaeth yr ATA | 694,473 | 695,822 |

[8] Daw'r ffigyrau poblogaeth, nifer y cartrefi a safleoedd annomestig o adroddiadau data blynyddol Llywodraeth Cymru 2017/18.

| DANGOSYDDION Y SECTOR[8] | | | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|
| | **am bob 100,000 o boblogaeth** | | **6.48** | **8.77** |
| SEC/IN/002iii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn cartrefi | 4 | 1 |
| | Enwadur | Poblogaeth yr ATA | 694,473 | 695,822 |
| | **am bob 100,000 o boblogaeth** | | **0.58** | **0.14** |
| SEC/IN/002iv | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn tanau bwriadol mewn cartrefi | 0 | 0 |
| | Enwadur | Poblogaeth yr ATA | 694,473 | 695,822 |
| | **am bob 100,000 o boblogaeth** | | **0.00** | **0.00** |
| SEC/IN/002v | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr anafiadau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn cartrefi | 33 | 41 |
| | Enwadur | Poblogaeth yr ATA | 694,473 | 695,855 |
| | **am bob 100,000 o boblogaeth** | | **4.75** | **5.89** |
| SEC/IN/002vi | Rhifiadur | Cyfanswm nifer yr anafiadau'n gysylltiedig â thanau bwriadol mewn cartrefi | 2 | 2 |
| | Enwadur | Poblogaeth yr ATA | 694,473 | 695,822 |
| | **am bob 100,000 o boblogaeth** | | **0.29** | **0.29** |
| SEC/FA/03i | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y galwadau diangen gan larymau tân awtomatig ar safleoedd annomestig | 345 | 325 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer y safleoedd annomestig yn ardal yr ATA | 29,175 | 29,563 |
| | **am bob 1,000 o safleoedd annomestig** | | **11.83** | **10.99** |
| SEC/FA/03ii | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y galwadau diangen gan larymau tân awtomatig mewn cartrefi | 806 | 788 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer y cartrefi yn ardal yr ATA | 324,299 | 326,047 |
| | **am bob 10,000 o gartrefi** | | **24.85** | **24.17** |
| SEC/SA/04i | Rhifiadur | Cyfanswm nifer y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt lle nad oedd larwm mwg yno | 71 | 67 |
| | Enwadur | Cyfanswm nifer y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt yn ardal yr ATA | 467 | 422 |
| | | | **15.20** | **15.88** |

**Y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau 2017/18**



Yn 2012, gan gydnabod ei bod yn ddefnyddio cael dull safonol o gymharu gwybodaeth yn ymwneud yn arbennig â thanau mewn cartrefi, mae'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru wedi datblygu Siarter Anheddau ar gyfer Cymru gyfan.

Pwrpas hyn hefyd oedd sicrhau bod pobl yng Nghymru, ni waeth ble y maent yn byw, yn gallu disgwyl cael cymorth a chefnogaeth i fod yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi, ac os bydd tân yn cychwyn y byddant yn cael ymateb brys prydlon, effeithiol a phroffesiynol i'w galwad am gymorth.

Mae'r Siarter yn gwneud saith ymrwymiad penodol y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud y canlynol:

1. *Cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.*
2. *Ymateb yn gyflym ac effeithlon bob tro y daw galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.*
3. *Cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.*
4. *Ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.*
5. *Cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.*
6. *Ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.*
7. *Ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.*

Er cysondeb, defnyddir naratif safonol ar gyfer adrodd ynghylch y Siarter, gan ddiweddaru'r ffigyrau o fewn fframwaith y naratif hwnnw bob blwyddyn. Gellir gweld y Siarter Tanau mewn Anheddau ar ein gwefan.

**Asesu Cymheiriaid Cymru gyfan 2017/18**



Mewn ymrwymiad pellach i wella parhaus, mae'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru wedi mabwysiadu proses Asesu Cymheiriaid Sicrwydd Gweithredol Cymru gyfan, sydd â'r nod o hybu pob Gwasanaeth i wella ei berfformiad ei hun yn barhaus.

Mae'r broses yn dechrau gyda phob Awdurdod yn cwblhau hunanasesiad ar gyfer cyfres o gwestiynau y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn gymorth i adolygu ei sefyllfa ei hun a chanfod lle mae'n meddwl y mae'n perfformio'n dda neu ble y gallai wneud yn well efallai. Yna, mae aseswyr cymheiriaid o'r ddau Awdurdod arall yng Nghymru yn adolygu'r canfyddiadau ac yn darparu 'ail farn' allanol ar farn yr Awdurdod cyntaf am ei sefyllfa, sef ai 'Yn Datblygu', 'Wedi Sefydlu' ynteu 'Wedi Datblygu'. Mae hyn yn darparu sicrwydd ychwanegol fod y disgrifyddion yn haeddiannol a bod camau i fynd i'r afael â than-berfformiad yn cael eu cyfeirio at y maes cywir. Hefyd, gall aseswyr cymheiriaid awgrymu meysydd ychwanegol i'w datblygu y gallai'r Awdurdod ddymuno eu hystyried ochr yn ochr â'r rhai a ganfuwyd eisoes. Isod, dan yr adran 'Beth mae pob eraill wedi'i ddweud amdanom', gellir gweld canlyniad yr adolygiad cymheiriaid a gynhaliwyd yn ddiweddar ar gyfer yr Awdurdod.

**Adroddiad Asesu Cymheiriaid 2017/18**

Roedd y pynciau ar gyfer Gogledd Cymru yn 2017/18 yn edrych ar y modd mae GTAGC yn rheoli ei waith diogelwch tân rheoleiddiol (Amddiffyn) a pha mor barod yw ar gyfer delio ag argyfyngau mawr (Parod). Fe wnaeth tîm asesu cymheiriaid o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru dreulio tridiau yn Chwefror 2018 yn cynnal dau gyfarfod grŵp ffocws a mwy nag ugain o gyfweliadau yng Ngogledd Cymru i brofi pa mor gadarn yw hunan-asesiad ATAGC.

**Amddiffyn**

Roedd y tîm cymheiriaid yn cytuno ag hunanasesiad ATAGC fod y modd y mae'n darparu gweithgareddau amddiffyn ac yn ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid yn ei weithgareddau amddiffyn yn rhai 'Wedi Sefydlu'. Ond daeth i'r casgliad fod prosesau ATAGC ar gyfer mesur a gwerthuso ei weithgareddau amddiffyn yn rhai 'Wedi Sefydlu' yn hytrach nag yn rhai 'Yn Datblygu'.

Roedd adroddiad cryno'r tîm cymheiriaid ar gyfer ATAGC yn cynnwys y canlynol:

- mae ei strategaeth amddiffyn yn cyfrannu at y saith nod llesiant sydd wedi'u diffinio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- mae ei ddull yn gyson ag arferion a dderbynnir yn genedlaethol ac a ddylai ddarparu sicrwydd fod mathau priodol o safleoedd yn cael eu targedu;
- mae ei broses asesu risg ar gyfer datblygu ei raglen archwilio wedi'i gwreiddio ac mae'n cael ei datblygu ymhellach gan y defnydd o ffynonellau cymharol newydd o wybodaeth gan wasanaethau tân ac achub eraill, gan gynnwys digwyddiadau cenedlaethol pwysig;
- mae ei raglen archwilio yn seiliedig ar risgiau ac mae'n dilyn cyfarwyddyd a dderbynnir yn genedlaethol, wedi'i helaethu gan wybodaeth leol;
- mae wedi ymrwymo i ddilyn y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) yn deg ac egwyddorol;
- mae ganddo berthynas gadarnhaol ag asiantaethau sy'n bartneriaid iddo a'i staff ei hun ar gyfer cynnal gweithgareddau amddiffyn;
- mae'n monitro ei berfformiad ei hun drwy gyfres o ddangosyddion perfformiad;
- o ganlyniad i newid ei bolisi ar ymateb i larymau tân awtomatig, mae hynny wedi rhyddhau capasiti heb amharu ar ddiogelwch yn y gymuned fusnes;
- mae tan-berfformiad yn cael ei fonitro drwy broses sicrwydd ansawdd, ac ymdrinnir â hynny yn y tarddiad.

**Parod**

Roedd y tîm cymheiriaid yn cytuno â hunan-asesiad ATAGC fod y modd y mae'n ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid ar gyfer cynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau gweithredol 'Wedi Datblygu', a bod ei drefniadau i gefnogi digwyddiadau o bwys cenedlaethol 'Wedi Sefydlu'. Ond daeth i'r casgliad y gallai'r modd y mae ATAGC yn barod yn weithredol fod â chysylltiad uniongyrchol â'i gynllun strategol, ac mai 'Wedi Sefydlu' y mae'r agwedd hon yn hytrach nag 'Wedi Datblygu'.

Roedd adroddiad cryno'r tîm cymheiriaid ar gyfer GTAGC yn cynnwys y canlynol:

- mae ganddo arferion gweithio da mewn perthynas â'i gnewyllyn o Swyddogion Cyswllt Rhyngasiantaethol Cenedlaethol;
- mae ganddo broses gadarn ar gyfer cynnal ei waith Cyd-Egwyddorion Gallu'r Gwasanaethau Brys i Ryngweithredu;
- mae'n arwain y ffordd o ran gweithredu'r Cyfarwyddyd Gweithredol Cenedlaethol;
- mae'n rheoli cynlluniau sensitif a gwybodaeth am risgiau cymunedol mewn modd effeithiol ac yn ddiogel;
- mae cynnal lefelau argaeledd criwiau tân ar alw RDS yn parhau'n her er gwaethaf yr ymdrechion i wella hyn;
- mae ei reolaeth o barhad busnes yn gadarnhaol iawn;
- mae'n cymryd rhan fel rhanddeiliad allweddol yn Fforwm Cydnerthedd Gogledd Cymru;
- mae ein dîm cymorth cymunedol yn cynorthwyo'r cyhoedd ac yn lleihau'r galw ar YGAC;
- mae'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol o bartneriaethau allweddol.

**Datganiad Archwilio Mewnol**

Cafodd Datganiad Sicrwydd Blynyddol yr Archwiliad Mewnol 2017/18 ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2018.

| |
|---|
| Barn yr archwiliad mewnol oedd bod gan ATAGC brosesau rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol boddhaol i reoli'r modd mae wedi cyflawni amcanion yr Awdurdod yn y cyfnod o 12 mis hyd at 31 Mawrth 2017. |

Dyma'r meysydd a archwiliwyd, a'r argymhellion:

Cyflwynwyd adroddiadau i Bwyllgor Archwilio'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mehefin 2018. Mae'r rhai ar gael yn: http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338225/10-internal-audit-annual-report-2017-18-inc-appendices.pdf

| **Cynhaliwyd archwiliadau ar:** | **Canlyniad yr Archwiliad:** |
|---|---|
| Diogelwch Seiber (Rhan 1) | **Pwysig** |
| Gorsafoedd ar alw (Conwy a Sir Ddinbych) | **Canolig** |
| Polisi a Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban | **Canolig** |
| Y Fenter Dwyll Genedlaethol) | **Bach** |

| Hefyd yn 2017/18, cynhaliwyd archwiliadau dilynol ers 2016/17: | | |
|---|---|---|
| | **Barn yr Archwiliad** | **Barn ddiwygiedig yr Archwiliad** |
| Rheoli Presenoldeb AD | Sicrwydd Boddhaol | Sicrwydd Boddhaol |

Mae'r adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddwyd ar gael yn: http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338225/10-internal-audit-annual-report-2017-18-inc-appendices.pdf

## GWYBODAETH YCHWANEGOL:

- Mae **Deddf Tân ac Achub 2004** yn egluro dyletswyddau a phwerau'r Awdurdod i:
  - Hybu diogelwch tân;
  - Ymladd tanau;
  - Amddiffyn pobl ac eiddo rhag tanau;
  - Achub pobl o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd;
  - Ymateb i risgiau penodol eraill, megis digwyddiadau cemegol;
  - Ymateb i argyfyngau mawr, megis ymosodiadau terfysgol.

- Mae **Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2017** a **Gorchymyn (Diwygio) 2017** yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod mewn perthynas ag argyfyngau sy'n ymwneud â halogion cemegol, biolegol neu ymbelydrol; dymchweliadau strwythurol; trenau, tramiau neu awyrennau; a llifogydd ac argyfyngau dŵr mewndirol pan maent yn golygu perygl marwolaeth, anaf difrifol neu salwch.

- Mae **Deddf Argyfyngau Sifil 2004** yn mynnu bod yr Awdurdod yn cynllunio ar gyfer ac yn ymateb i argyfyngau mawr sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol, yr amgylchedd neu i ddiogelwch.

- Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn mynnu bod yr Awdurdod yn gorfodi diogelwch tân ar safleoedd annomestig, gan gynnwys y rhannau cymunol o flociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth.

- Dan **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** rhaid i'r Awdurdod osod amcanion i fynd ati'n barhaus i wella'r hyn mae'n ei wneud a chyhoeddi gwybodaeth am ei welliant a'i berfformiad.

- Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn mynnu bod yr Awdurdod yn gweithio tuag at wella llesiant cenedlaethau o bobl yng Nghymru yn y dyfodol, a hynny'n unigol ac fel aeld statudol I'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

- Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod i dalu sylw dyledus i ddileu camwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

- Roedd **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yn disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, mae gan y Gymraeg yng Nghymru statws cyfartal â'r Saesneg a rhaid peidio â'i thrin yn llai ffafriol. Erbyn hyn, nid oes angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg. Yn hytrach, rhaid iddynt gydymffurfio â chyfres o Safonau'r Gymraeg.

**Llywodraeth Cymru – Pobl a Chymunedau**
http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/fire/?lang=cy

**Swyddfa Archwilio Cymru**
Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n gorfod asesu pa mor debygol yw'r Awdurdod o barhau i wella ac asesu a yw'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau ac yn gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd perthnasol. Hefyd, mae archwilwyr yn gweithio gydag awdurdodau tân ledled Cymru i gynnal rhaglen o archwiliadau ariannol a gwerth am arian. http://archwilio.cymru/

Trwyddedi Atgynhyrchu Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus
Mae deunyddiau hawlfraint y Goron yn cael eu hatgynhyrchu yn y ddogfen hon dan Drwydded Rhif C2010002320.

**Ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r ddogfen hon**
Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Cymru.
http://gov.wales/statistics-and-research/fire-statistics/?lang=cy
Stats Cymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue
Ystadegau Tân ac Achub CIPFA 2016 www.cipfa.org.uk
Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Dueddiadau'r Dyfodol 2017

YMYRRYD OS BYDD METHIANT NEU FETHIANT POSIBL I GYDYMFFURFIO:
Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau ymyrryd:

- dan adran 22 o **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 – Protocol Ymyrryd yn berthnasol;
- dan adran 29 o **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu mewn perygl o fethu, cydymffurfio â'r Mesur. Ond yn yr holl amgylchiadau, heblaw'r rhai mwyaf eithriadol, ni all Gweinidogion Cymru ond ymyrryd ar ôl iddynt gynnig cymorth gwirfoddol i'r Awdurdod dan adran 28 o'r Mesur.

## YMGYNGHORIADAU:

| | Ymgynghoriad | Cyhoeddi | Am y flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Amcanion Gwella ar gyfer 2014/15 gan gynnwys strategaeth ariannol newydd | Hydref 2013 | Mawrth 2014 | 2014/15 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2015/16 | Hydref 2014 | Mawrth 2015 | 2015/16 |
| Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17 | Hydref 2015 | Mawrth 2016 | 2016/17 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2017/18 ac ymlaen | Hydref 2016 | Mawrth 2017 | 2017/18 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2018/19 ac ymlaen | Hydref 2017 | Mawrth 2018 | 2018/19 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2019/20 ac ymlaen | Haf / Hydref 2018 | Mawrth 2019 | 2019/20 |

Yn ystod 2012 fe wnaeth y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru fynd ati ar y cyd i ddatblygu Siarter Cymru gyfan i sicrhau bod pobl yng Nghymru, ni waeth ble y maent yn byw, yn gallu disgwyl cael cymorth a chefnogaeth i fod yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi, ac os bydd tân yn cychwyn byddant yn cael ymateb brys prydlon, effeithiol a phroffesiynol i'w galwad am gymorth.

Mae'r Siarter yn gwneud saith ymrwymiad penodol y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud y canlynol:

1. Byddwn yn cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Byddwn yn ymateb yn gyflym ac effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.
3. Byddwn yn cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.
4. Byddwn yn ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.
5. Byddwn yn cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.
6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae'r tudalennau a ganlyn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'n cydymffurfiad â'r ymrwymiadau hyn yn ystod 2017-18.

Er cysondeb, rydym yn cynnig defnyddio naratif safonol ar gyfer adrodd ynghylch y Siarter bob blwyddyn, a dim ond yn diweddaru'r ffigyrau o fewn fframwaith y naratif hwnnw.

**1. Byddwn yn cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.**

Rydym wedi ymrwymo i gymryd yr awenau wrth gynnal tueddiad am i lawr yn nifer yr achosion o danau mewn anheddau a'r anafusion cysylltiedig yng Nghymru.

Yn 2017-18 fe wnaethom ni ddarparu cyngor ac anogaeth i bobl ynglŷn â'r modd y gallant atal tanau rhag cychwyn yn eu cartref a sut y gallant eu cadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gweithgarwch atal tanau yn cynnwys cynnal 20,188 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i breswylwyr, ac fe wnaeth 20,171 o blant a phobl ifanc yng Nghyfnodau Allweddol 1 - 4 dderbyn sgwrs ar ddiogelwch tân.

Yn ystod 2017-18 aethom at 386 o danau damweiniol mewn anheddau ble cafodd 1 person ei ladd a 41 o bobl eraill eu hanafu.

Hefyd yn ystod 2017-18 aethom at 36 o danau mewn anheddau a gafodd eu cynnau'n fwriadol, lle cafodd un person ei ladd ac 2 o bobl eraill eu hanafu.

Mae'r tuedd yn y nifer o danau mewn cartrefi yn ardal yr ATA dros y pum mlynedd diwethaf yn dangos gostyngiad cyson gyda chynnydd bychan yn 2017/18.

**2. Byddwn yn ymateb yn gyflym ac effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.**

Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fo galwadau brys 999/112 yn cael eu trosglwyddo inni gan y gweithredwr.

Mae ein hystafell reoli tân ar gael yn barhaol, gyda threfniadau arbennig yn eu lle ar gyfer trosglwyddo galwadau'n llyfn o un ystafell i'r llall os bydd rhywbeth difrifol yn tarfu neu os bydd cynnydd mawr yn nifer y galwadau sy'n dod drwodd ar yr un pryd.

Mae systemau mapio a systemau electronig soffistigedig yn gymorth inni wneud y canlynol: a) canfod lleoliad y digwyddiad dan sylw a b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael at y digwyddiad.

Yn 2017-18, fe wnaethom ni drin cyfanswm 14,651 o alwadau brys 999/112. Roeddem ni hefyd yn gallu cael digon o wybodaeth am ddigwyddiadau i rybuddio'r ymateb cychwynnol priodol cyn pen 90 eiliad ar 72.6% o adegau, a rhwng 91 a 120 o eiliadau ar 13.6% o adegau.

Fodd bynnag, gwyddom nad pa mor gyflym yr ydym yn trin yr alwad yw'r unig ffon fesur berthnasol – er bod hynny'n bwysig. Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaeth yn gofyn am sgiliau arbenigol i gael gwybodaeth yn effeithiol gan bobl sy'n galw ac sydd, efallai, yn anghyfarwydd â'r ardal lle maent, yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu gydag anawsterau iaith neu gyfathrebu.

Sgil bwysig arall yw gwybod pryd y mae galwr yn camddefnyddio'r system 999/112 drwy honni bod yna argyfwng pan nad oes un mewn gwirionedd. Mae'n drosedd gwneud galwadau ffug i'r gwasanaethau brys. Yn anffodus, nid yw hyn yn rhwystro lleiafrif o bobl rhag defnyddio'r llinellau 999 a thynnu gwasanaethau oddi wrth bobl a allai fod mewn sefyllfa sy'n wirioneddol yn bygwth bywyd. Bob tro y byddwn yn mynd allan at y galwadau diangen mae amser ac arian yn cael eu gwastraffu ac mae'n gosod gweddill y gymuned mewn mwy o berygl.

Yn 2017-18, fe wnaethom ni dderbyn 109 o alwadau diangen maleisus. Yn 64% o'r achosion, roeddem wedi gallu sefydlu nad oedd y galwadau hyn yn rhai didwyll ac felly wedi osgoi anfon adnoddau allan yn ddiangen.

**3. Byddwn yn cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.**

Unwaith y byddwn wedi ateb yr alwad frys 999/112 ac wedi dyrannu'r adnoddau mwyaf priodol i fod yn bresennol gyntaf yn y digwyddiad, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwydd yn gyflym, yn ddiogel a chyda'r offer cywir i ymdrin â'r mater.

Yn 2017-18 fe wnaethom ni ymateb i 9% o danau mewn anheddau o fewn 1-5 munud, 55% o fewn 5-10 munud, 21% o fewn 10-15 munud a 15% mewn 15 munud a mwy. Mae'r amseroedd hyn yn cynnwys yr amser mae'n ei gymryd i'r staff gyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio felly mae sawl peth yn gallu effeithio ar gyflymder y ffigyrau ymateb, gan gynnwys y ddaearyddiaeth drefol/wledig a natur rhwydweithiau'r ffyrdd yn yr ardal.
Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn anheddau yn eithriadol bwysig ond ni allwn orbwysleisio mor bwysig yw atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf a chael o leiaf un

larwm mwg gweithredol a chynllun dianc wedi ei gynllunio o flaen llaw rhag ofn y bydd tân. Fodd bynnag, os bydd tân mewn annedd, rydym yn sicrhau bod gan ein criwiau diffodd tân yr offer cywir i'w ddiffodd.

Mae gan ein diffoddwyr tân gyfarpar amddiffyn personol a chyfarpar diffodd tân, o safon. Rydym yn gofyn iddynt fod yn ffit ac yn iach ac yn gofalu bod eu sgiliau'n cael eu profi a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydym hefyd yn mynd ati'n rheolaidd i wirio bod y ffordd y mae ein criwiau wedi trin digwyddiadau yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau derbyniol ar gyfer diffodd tanau.

Rydym yn cymryd diogelwch ein diffoddwyr tân yn gwbl o ddifrif, o ystyried natur y gwaith y maent yn ei wneud. Yn 2017-18 aeth ein criwiau at 2,029 o danau mewn amrywiaeth o lefydd gwahanol gan gynnwys yn yr awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd 24 o staff gweithredol anaf. I rai, bychan oedd yr anaf, ond i eraill roedd yr anaf yn ddigon difrifol iddynt orfod cymryd amser i ffwrdd er mwyn dod atynt eu hunain. Peth prin yw anafiadau difrifol i ddiffoddwyr tân – o blith yr uchod, roedd dau anaf 'penodol' dan Reoliadau RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ynghylch Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau).

**4. Byddwn yn ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.**

Rydym wedi ymrwymo i ymdrin â thanau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol. I wneud hyn, mae ein criwiau'n cael y sgiliau, yr wybodaeth, y cyfarpar diffodd tân a chefnogaeth rheolwyr fel eu bod yn gwbl barod i ymdrin â'r tân mewn annedd, ni waeth beth fo'r amgylchiadau.

Yn 2017-18, o'r holl danau damweiniol mewn anheddau yr aethom atynt, llwyddwyd i gyfyngu 89% ohonynt i'r ystafell lle bu iddynt gychwyn heb ledaenu ymhellach. Er y gallai nifer o ffactorau gyfrannu at yr ystadegyn hwn fod y tu hwnt i reolaeth y criwiau (megis faint o amser a gymerodd i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi eu cau ai peidio er mwyn rhwystro'r tân rhag lledaenu, a faint o amser oddi wrth orsaf dân yr oedd yr annedd), rydym yn dal yn ystyried hyn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant wrth ddiffodd tanau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil a gwelliannau i gyfarpar, ac yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech i ddysgu beth yw'r datblygiadau diweddaraf.

Rydym hefyd yn cymryd delwedd broffesiynol y gwasanaeth tân ac achub o ddifrif. Rydym yn rhoi pwys mawr ar nodweddion a rhinweddau personol pob un o'n staff gweithredol yn ogystal â'u ffitrwydd corfforol a seicolegol a safon uchel eu hyfforddiant rheoli a gweithredol.

Rydym yn annog pob un o'n staff i gadw at gyfres o werthoedd craidd a fabwysiadwyd yn genedlaethol gan wasanaethau tân ac achub y DU ac sy'n cyfleu ein hymrwymiad i roi gwerth ar wasanaeth i'r gymuned, i bobl, i amrywiaeth ac i wella.

**5. Byddwn yn cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.**

Rydym wedi ymrwymo i gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.

Mae cael tân yn y cartref yn gallu gwneud i bobl deimlo'n fregus iawn. Pan fo pobl wedi colli eu heiddo bydd angen cymorth ymarferol yn ogystal â chymorth emosiynol. Pan fo pobl wedi cael

eu hanafu neu eu lladd yn y tân, mae'r profiad yn gallu effeithio ar gymunedau gyfan yn ogystal â'r unigolyn a'i deulu agos a'i gyfeillion.

Oherwydd hyn nid yw cyfraniad y Gwasanaeth Tân ac Achub at gefnogi cymunedau yn dod i ben pan fo'r tân wedi cael ei ddiffodd a phawb wedi ei ddarganfod.

Ymhob achos, ymchwilir i achos y tân a gwneir cofnod manwl. Bydd yr holl fanylion ynglŷn â sut a ble y cychwynnodd y tân, pa mor bell y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau arbennig, ac unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân yn cael eu cofnodi fel ffynhonnell ar gyfer dysgu, ymchwilio a monitro yn y dyfodol.

Os oes rheswm i gredu bod tân wedi ei gynnau'n fwriadol mewn annedd, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd yr Heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill yn mynd ar ôl hyn.

Ar rai safleoedd, megis blociau o fflatiau neu dai lle mae nifer o wahanol denantiaid yn byw, gallai'r ymchwiliadau ar ôl y digwyddiad ddangos bod landlord wedi methu sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna, gallai ein hymchwilwyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddau ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi cychwyn yn ddamweiniol, byddwn efallai'n cynnal rhyw fath o weithgarwch diogelwch cymunedol neu ymgyrch yn y cyffiniau, gan gynnig cyngor a sicrwydd drwy Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref yn rhad ac am ddim.

**6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.**

Byddwn wastad yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau. Yn aml bydd achos a tharddiad tân yn eglur a syml iawn, ond weithiau bydd angen ymchwiliad mwy trylwyr a fforensig i wybod beth yw achos mwyaf tebygol y tân. Dim ond mewn lleiafrif bychan y bydd yr achos yn 'anhysbys'.

Os oes amheuaeth o drosedd, cynhelir yr ymchwiliad i'r tân gyda'r Heddlu. Mae pobl a amheuir o roi annedd ar dân yn debygol o wynebu achos troseddol, er mewn rhai achosion efallai nad dyma'r unig lwybr posibl – er enghraifft os cafodd y tân ei gynnau gan blentyn ifanc neu gan rywun yn ceisio cyflawn hunanladdiad.

Yn 2017-18, aethom at 422 o danau mewn anheddau, a chanfuwyd bod 36 ohonynt wedi cael eu cynnau'n fwriadol.

Mewn rhai adeiladau preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r rhannau cyffredin sy'n cael eu rhannu yn dod dan reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am y safle (megis y landlord neu reolwr yr adeilad) gael trefniadau diogelwch tân da yn eu lle. Mae methu â gwneud hynny yn gallu arwain at gau'r safle ac erlyn y person sy'n gyfrifol gyda'r posibilrwydd o garchar a/neu ddirwyon anghyfyngedig.

Fel awdurdod gorfodi, rydym yn sicrhau bod personau syn gyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau dan y ddeddfwriaeth hon, a gallwn ddewis o blith ystod o opsiynau

gorfodaeth sydd ar gael inni gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r tramgwydd a pha risg mae'n ei olygu.

Yn 2017-18, bu I ni roi 3 Hysbysiad Gorfod a 7 Hysbysiad Gwahardd, ond ni roddwyd unrhyw Rybudd Ffurfiol. Ni chafodd yr un erlyniad ei gwblhau yn ystod y flwyddyn.

**7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.**

Rydym yn mynd ati'n barhaus i ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Dan y ddeddfwriaeth, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu categoreiddio'n 'Awdurdodau Gwella Cymreig' ac mae disgwyl iddynt adolygu'n rheolaidd a gwella'n barhaus eu perfformiad eu hunain drwy broses ffurfiol o osod, gweithredu ac adrodd ynghylch Amcanion Gwella blynyddol.

Ond nid ydym yn cyfyngu ein gweithgarwch gwella i'r broses flynyddol ffurfiol hon gan fod safonau uchel a gwelliant parhaus yn rhan annatod o'n gwaith bob dydd yn rhedeg y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Dyma rai enghreifftiau o weithgarwch gwella sy'n cael ei wneud:

- Mynd ati'n barhaus i adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd y sefydliad er mwyn canfod cyfleoedd i wella
- Ymateb yn gadarnhaol i adolygiadau gan gymheiriaid, archwiliadau ac arolygiadau
- Ymateb yn gadarnhaol i ymatebion i ymgynghoriadau, adborth gan randdeiliaid, cwynion a chanmoliaeth
- Dysgu oddi wrth ein profiadau, megis drwy drafod ar ôl digwyddiadau, adroddiadau am ddamweiniau neu adroddiadau am ddamweiniau a fu bron â digwydd
- Cyfrannu at weithgorau, rhannu arferion da, a dysgu oddi wrth ymchwil sy'n cael ei gynnal
- Manteisio ar gyfleoedd i ddysgu oddi wrth – a chyda – sefydliadau eraill drwy bartneriaethau, pwyllgorau, byrddau a chymdeithasau proffesiynol
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i'n gallu i gynnal ein gweithrediadau, megis drwy brosesau rheoli parhad busnes
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i'n gallu i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, megis drwy fforymau cydnerthedd lleol
- Mynd ati'n barhaus i ddatblygu sgiliau technegol a phroffesiynol ein staff
- Cynnal ac adnewyddu ein hasedau materol a chyfrifiadurol, megis ein cyfarpar, ein cerbydau, ein hadeiladau a'n technoleg.

# GEIRFA

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn dod o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau ac sydd yn unrhyw fath o adeiladu (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb.<br><br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, hefyd danau yn unrhyw le lle aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai nac yn brif danau.<br>Nid oes anafusion, achub neu ddianc, mewn tanau eilaidd, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid oes anafusion, achub neu ddianc anafusion mewn tanau simnai, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>• Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb<br>• Trychinebau mawr;<br>• Digwyddiadau domestig e.e. dwr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb<br>• Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Anafiadau oherwydd Tân | Er cysondeb, ers Ebrill 2009 drwy'r Deyrnas Unedig, caiff anafusion tân eu cofnodi dan bedwar categori difrifoldeb:<br>i) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae anafiadau'n ymddangos yn ddifrifol;<br>ii) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn fach;<br>iii) rhoddwyd cymorth cyntaf i'r dioddefwr yn y fan a'r lle yn unig, ac nid oedd angen rhagor o driniaeth;<br>iv) argymhellwyd archwiliad rhagofalus – aeth y person i'r ysbyty neu cafodd gyngor i weld meddyg rhag ofn, ond nid oedd unrhyw anaf neu drallod amlwg. |

| | |
|---|---|
| Galwad ddiangen (canllaw cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi mynd yno, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen - Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – Larymau tân awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fo larwm yn canu a rhywun yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad' (er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |